# Llais Ogwan

**Papur Bro Dyffryn Ogwen**

Rhifyn 555 · **Gorffennaf 2024** · 70c



## Roc y Ddôl







Yn dilyn llwyddiant llynedd, braf oedd croesawu dros 800 o bobl Bethesda a thu hwnt yn ôl i'r Clwb Rygbi ar gyfer Roc y Ddôl 2024.

Gyda'r haul yn tywynnu ar gaeau Dôl Ddafydd gwelwyd llu o fandiau yn diddanu'r dorf yn ystod y dydd - o Yws Gwynedd, i Candelas i Alys Williams i Dylan Morris. Roedd bwrlwm y fro i'w weld drwy'r dydd gyda theuluoedd a ffrindiau hen a newydd yn cymdeithasu, mwynhau a dawnsio.

Rydym yn hynod o lwcus bod môr o dalent cerddorol yma yn Nyffryn Ogwen. Braint oedd cael arddangos y cyfoeth cerddorol hwn gyda Neil Maffia yn ran o'r band Ben Twthill yn cychwyn y dydd, a band lleol arall, Dafydd Goch a'r Dihorod yn eu dilyn.

Ychydig wythnosau'n unig ar ôl ei ymddangosiad yng Ngharnifal Bethesda, cafwyd set o tiwns gan y DJ lleol naw oed, Beatbreaker. Hefyd, croesawyd y band ifanc Soap yn ôl i Roc y Ddôl – gyda dau o'r aelodau, Adam Boggs ac Wil Owain, yn hogiau Pesda. Mae'n wych eu gweld yn mynd o nerth i nerth – "watch this space" chwadl y Sais.

Ac heb os, yr uchafbwynt i lawer, o bob oed, oedd Celt. Roedd y dorf bendant yn rocio'r ddôl o ddechrau i ddiwedd set fywiog y band o Rachub. Gyda'r cae rygbi dan ei sang, cawsom fwynhau hen glasuron fel Streets of Bethesda a Dros Foroedd Gwyllt, a thiwns newydd fel Modd i Fyw ac Yr Esgus Perffaith.

Diolch o galon am y gefnogaeth pobl Pesda – tan tro nesaf!'




**Lluniau Roc y Ddol**
**Diolch i Iain Buchanan**

# Llais Ogwan

## Rhif 555
## Gorffennaf 2024


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Rhys Llwyd.**

Y golygydd ym mis **Medi** fydd
**Trystan Pritchard,**
27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 31 Awst** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 19 Medi** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (104) | Wyn Bowen Harris, Talybont. |
| £20.00 | (17) | Owen G. Jones, Erw Las, Bethesda. |
| £10.00 | (44) | Donna Hughes, Rhiwlas. |
| £5.00 | (165) | Meirwen Williams, Star, Gaerwen. |

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

### Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10.00 | Llywela O'Brien er cof annwyl am ei mam, Mrs. Mary Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth |
| £2.30 | Rhif 6 Bryn Caseg, Bethesda |

**Diolch yn fawr**

## Dyddiadur y Dyffryn

**Gorffennaf**

| | |
|---|---|
| 22/23 | Mwrdrwr y Maes.(Theatr Bara Caws) Neuadd Ogwen am 7.30. |
| 23 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00. |
| 30 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00. |

**Awst**

| | |
|---|---|
| 22/23/24 | Arddangosfa Arlunio. Canolfan Glasinfryn. 11.00 – 3.30 |
| 22-24 | Gwyl Ara Deg yn Neuadd Ogwen. |

**Medi**

| | |
|---|---|
| 10 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00. |
| 16 | Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00. |
| 19 | Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45. |
| 24 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00. |
| 28 | Bore Coffi Clwb Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00. |
| 30 | Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00. |

**Hydref**

| | |
|---|---|
| 10 | Noson Agoriadol Cymdeithas Jerusalem gyda Hogia'r Bonc am 7.00. |


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com


## Aduniad Ysgol Dyffryn Ogwen

Yn dilyn llwyddiant yr aduniad y llynedd, mae'r pedwar gŵr 'doeth' yn ymestyn gwahoddiad eto eleni. Fel y llynedd mae'r noson yn agored i gyn-ddisgyblion 70+ (mewn oed!). Dyma'r manylion pwysig.

**Lleoliad**: Clwb Rygbi, Bethesda
**Dyddiad**: Nos Wener, Awst 30
**Amser**: 7pm
**Adloniant**: Hogia'r Bonc
Cynhelir Raffl ar y Noson.

Fel y llynedd bydd yn bosibl i archebu bwyd ar y noson, neu ei archebu o flaen llaw drwy gysylltu â; Wayne Eccles ar 07553093178.

Edrychwn ymlaen at noson arall o 'ddal i fyny' a rhannu sawl atgof. Dewch yn llu. **Elwyn**, **John**, **Wil** a **Richard**.

# Anrhydedd i Manon

Heddiw cyflwynodd Prifysgol Bangor Gradd er Anrhydodd i'r nofelydd, dramodydd, sgriptwraig a cherddor amlwg o Gymru, Manon Steffan Ros

Yn enedigol ac wedi ei magu yn Rhiwlas ger Bangor, a bellach yn byw yn Nhywyn, Gwynedd, mae Manon Steffan Ros yn chwarae rhan arwyddocaol ym myd llenyddol yr iaith Gymraeg. Y llynedd, dyfarnwyd Medal Yoto Carnegie i Manon am ei gwaith 'The Blue Book of Nebo'. Cyfieithiad yw hwn gan yr awdures ei hun o'i nofel, Llyfr Glas Nebo, a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2018 a thair Gwobr Llyfr y Flwyddyn.

Wrth dderbyn ei gradd er Anrhydedd am ei chyfraniad at Ddiwylliant, Cerddoriaeth a Chelfyddydau Cymru a'r Gymraeg yn ystod wythnos graddio'r Brifysgol, a chan gymryd ysbrydoliaeth gan sylfaenwyr y Brifysgol, cyngor Manon i'r graddedigion newydd eraill oedd i weithio bob tro er lles dynoliaeth, er lles pobol y byddant efallai byth yn eu cwrdd.

Meddai'r Athro Edmund Burke, Is-ganghellor, Prifysgol Bangor,

"Mae'r seremonïau graddio yn gyfle i ddod ynghyd i ddathlu llwyddiant pob un o fyfyrwyr Bangor. Yn ogystal â dathlu llwyddiant pob myfyriwr sy'n graddio, mae dyfarnu Graddau Er Anrhydedd yn ein galluogi i ddangos ein gwerthfawrogiad o gyfraniad unigolion at wasanaethau cyhoeddus, at lenyddiaeth a cherddoriaeth, at fusnes, chwaraeon neu wyddoniaeth. Gall straeon ein myfyrwyr, a straeon yr unigolion sy'n cael eu anrhydeddu eleni, ein hysbrydoli ni i gyd.



# Geiriau Hapus

Wrth wrando ar y newyddion ar y teledu neu'r radio, neu ddarllen y papurau newydd, yr ydym yn ddyddiol yn dod ar draws geiriau sy'n disgrifio'r pethau negatif mewn bywyd. Clywir llawer yn rhy aml geiriau megis **damwain, llofruddiaeth, ymosodiad, terfysgaeth, ffrwydrad, hiliaeth, difrod**, ac yn y blaen. Rhaid wrth eiriau o'r fath i ddisgrifio a chofnodi beth sy'n digwydd yn y byd – dyna yw swyddogaeth iaith, sef bod yn gyfrwng i ni gyfathrebu'n effeithiol - ac i wneud hynny rhaid adrodd y da a'r drwg.



Yr oedd hoff grys t gan fy merch pan yn blentyn bach – un glas ydoedd a llun gwên fawr ar y tu blaen, ac ar y cefn 'roedd aralleiriad lliwgar o gofnod mewn geiriadur (er nid GPC!): –

*Hapus: bodlon, dedwydd, llon, bendigedig, wrth fy modd.*

Roedd y crys t yn drawiadol ac yn tynnu sylw. Mi fyddai pobl yn ymateb iddo gan ddweud ei fod yn hyfryd, ac wedi rhoi gwên ar eu hwynebau. Disgrifiad y gair yn meithrin y teimlad. Mae gan eiriau bŵer.

Felly gyda'r bwriad o godi calon, dyma gip olwg **ysgafala** (ysgafn) ar rai o'r geiriau mwy anarferol yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru sy'n cyfleu neu ddisgrifio hapusrwydd neu lawenydd.

Rwy'n gobeithio eich bod yn darllen hwn ar **wiwdymp,** sef ar adeg ffafriol, a'i fod yn rhoi **heulfodd** (pleser gwych) i chi ddarganfod y geiriau. Rhaid dweud mai **hapuswaith** oedd chwilio'r fath eiriau, yn peri i mi ganu **llwyddwawd** (cân hapus) wrth weithio. Rydych yn **hyffawd** (ffodus) nad oedd modd i chi fy nghlywed! Gobeithio cewch fwynhau hydref **diaele** (diofal) a **chynedwydd** (dedwydd) yng nghwmni cyfeillion **breulon** (hynaws). Byddwch **wastadwyn** (hapus yn barhaus) a **ffriwlon** (llon eich gwedd). Ac os oes gennych gi, gobeithio ei fod yn **gynffonlon**! Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn drysordy o eiriau o'r fath – porwch ynddo i ddarganfod y perlau. Rhowch wybod os oes gennych ar lafar unrhyw air diddorol am lawenydd neu hapusrwydd sydd heb ei gofnodi yno. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*

## Marchnad Ogwen

Trist yw cyhoeddi bydd Marchnad Ogwen yn dod i ben wedi Marchnad Gorffennaf. Y rheswm am y penderfyniad yw diffyg cefnogaeth dros y misoedd diwethaf.

Mae'r Stondinwyr yn dra diolchgar i'r ffyddloniaid sydd wedi cefnogi'r Farchnad ers ei sefydlu – mewn pebyll yn Llys Dafydd, Gorffennaf 2011. Diolch yn fawr iawn i chi oll.

Ond mae llygedyn o obaith! Byddwn yn cynnal y Farchnad nos fel arfer ym mis Tachwedd.

Felly, nodwch y dyddiad – nos Fercher, Tachwedd 20fed o 5 o'r gloch tan 8. Dewch yn dyrfa!


**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

## Rhiwlas

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com (01248) 351015

**Sioe Dyffryn Ogwen**

Llongyfarchiadau i Nel Iolen, Cae Glas am ei llwyddiant yn Sioe Dyffryn Ogwen eleni. Llwyddodd Nel i gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth dan 14 oed. Daeth Nel hefyd yn drydydd yn y gystadleuaeth gwneud anifail allan o ffrwythau a llysiau – da iawn ti Nel!

Llongyfarchiadau hefyd i Elfyn Jones-Roberts am gipio'r wobr gyntaf gyda siytni betys, a'r drydedd wobr gyda jin eirin.



**Merched y Wawr**

I gloi'r tymor mwynhaodd yr aelodau bryd o fwyd yng ngwinllan Pant Du, Pen-y-groes ar un o ddyddiau brafiaf (prin!) mis Mehefin. Roedd yr olygfa oddi yno'n wych a'r wlad ar ei gorau, y bwyd yn flasus a'r cwmni'n ddifyr. Byddwn yn cyfarfod eto cyn bo hir i lunio rhaglen ar gyfer y tymor newydd a byddwn yn ailafael ym mis Medi, ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis am 1.30. Byddem wrth ein bodd yn croesawu wynebau newydd a chyn-aelodau hefyd nad ydym wedi eu gweld ers tro. Edrych ymlaen at eich gweld!

**Gwella eich sgiliau cyfrifiadurol**

Mi all cyfrifiadur agor byd newydd ond mae 'na lot i'w ddysgu ac mi all yr holl beth ymddangos yn gymhleth. Ond mae help wrth law. Os am gymorth efo'ch sgiliau digidol galwch heibio'r Neuadd **bob bore Mawrth rhwng 10 a 12** lle bydd Tony o Wasanaeth Gwynedd Digidol ar gael i'ch rhoi chi ar ben ffordd ac i'ch cefnogi i wneud mwy ar-lein. Mi fedrwch chi ddod â'ch dyfais eich hun efo chi neu mi all y gwasanaeth ddarparu dyfeisiau digidol i'ch helpu i gysylltu â'r We. Mae'n wasanaeth hwylus mewn awyrgylch gartrefol ac mae 'na nifer yn y pentref wedi ei gael yn ddefnyddiol yn barod. A'r newyddion da ydi ei fod am ddim!

**Clwb Rhiwen**

Mae dwy fu'n swyddogion efo Clwb Rhiwen ers bron i ugain mlynedd wedi penderfynu trosglwyddo'r awenau. Bu Ann Williams, Cae Mawr yn Llywydd/Ysgrifennydd a Dilys Parry, Bryntirion yn Drysorydd gydol y cyfnod hwnnw ond bellach maen nhw wedi penderfynu pasio'r cyfrifoldeb ymlaen i'r 'to iau', sef Nia Catherine Roberts a Kate Wheelock. Diolch o galon i'r ddwy ohonoch chi am eich holl waith a phob dymuniad da i Nia a Kate. Braf deall fod cynnydd wedi bod yn nifer yr aelodau'n ddiweddar gyda thua 20 yn cyfarfod yn rheolaidd bob mis. £2 y pen yw'r tal a bydd y Clwb yn cyfarfod yn y Neuadd ar y trydydd prynhawn Mercher yn y mis am 2 o'r gloch. Clwb i rai dros 60 oedd y Clwb Rhiwen yn wreiddiol gan mai dyna oedd yr oed ymddeol ar y pryd ond erbyn hyn mae'n agored i rai dros 50 oed. Yn ôl Dilys Parry mae'n gobeithio y bydd y Clwb yn parhau i fynd o nerth i nerth dan ofal y swyddogion newydd. Mwynhewch chithau ac Ann egwyl haeddiannol rŵan!

**Brysiwch wella**

Treuliodd Iona Jones, Bro Rhiwen gynt, gyfnod yn yr ysbyty ar ôl cael codwm yn ddiweddar. Rydym i gyd yn cofio atat, Iona, ac yn gobeithio dy fod yn cryfhau erbyn hyn. Cafodd Jean Vaughan Jones lawdriniaeth ar ei phen-glin hefyd a da deall eich bod yn dod yn eich blaen yn dda, Jean.

**Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas - Gwasanaethau'r Sul**

Fydd dim gwasanaethau'n cael eu cynnal yn awr tan ddechrau Medi pryd y bydd y Parch John Gwilym Jones yn pregethu yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar fore Sul, **Medi 8** a bydd y Parch Philip Barnett yn dod atom yr wythnos ganlynol, ar **Fedi 15**. Croeso cynnes i bawb.

### Cyfeillion Rhiwlas

Ar brynhawn Sadwrn braf ar Fehefin 22 daeth criw da at ei gilydd yn y Neuadd i fwynhau Cacen a Choffi. Fel y gwelwch, roedd dewis anhygoel o gacennau cartref blasus ar gael a braf oedd cael y cyfle i roi'r byd yn ei le dros banad. Diolch i Sharon Griffith a Gill Walker am ddod a'r cyfan at ei gilydd. Bydd y sesiwn nesaf yn cael ei chynnal yn y Neuadd brynhawn Sadwrn, **Medi 14** rhwng 1 a 3 y prynhawn. A gair i gall, y cyntaf i'r felin gaiff y dewis cyntaf! Cofiwch hefyd am y Noson Bingo nesaf nos Sadwrn, **Gorffennaf 27** rhwng 6.15 ac 8.30. Dewch yn llu!



CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106
Porthaethwy (01248) 719517
Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616
Pwllheli (01758) 703000

# YSGOL RHIWLAS



**Trip Gwersyll yr Urdd, Glan Llyn**
Roedd cynnwrf mawr ymysg disgyblion CA2 yn ddiweddar wrth iddynt gychwyn ar drip i wersyll yr Urdd, Glan Llyn. Cafodd y disgyblion ddeuddydd prysur yn cael blas ar ddringo, nofio, rhwyfo, a herio eu hunain ar y cwrs rhaffau uchel. Roedd y noson ffilm yn ffefryn gan bawb! Diolch i holl staff Glan Llyn am eu croeso cynnes.

**Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau mawr i'r rhai a gystadlodd yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen eleni – blwyddyn lwyddiannus iawn i Ysgol Rhiwlas. Derbyniodd Ania yr ail wobr am ei phaentiad o octopws, Seirian yr ail wobr am ei darlun o 'Sponge Bob', Emily y drydedd wobr am ei darlun o Peppa Pinc, a Nel y wobr gyntaf am ei ffotograff a'r drydedd wobr am ei chrwban. Gwych iawn bawb!





**Ymweliad ag Amgueddfa Lechi Cymru**
Ar fore braf o Fehefin aeth disgyblion CA1 ar drip i Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis. Bu iddynt fwynhau gwylio'r chwarelwr yn hollti a naddu llechi, camu nôl mewn amser yn nhai teras Fron Haul, rhyfeddu ar faint yr olwyn ddŵr, ac wrth gwrs mwynhau picnic blasus a chwarae yn yr haul. Diolch i staff yr Amgueddfa am y croeso.


**Ymweliad Bethan Gwanas**
Cafodd disgyblion CA2 brofiad gwych yn ddiweddar – croesawu neb llai na'r awdures Bethan Gwanas i'r ysgol i gynnal gweithdy ysgrifennu stori arswyd! Roedd y disgyblion wedi eu hysbrydoli gan frwdfrydedd a thalent Bethan – tybed a oes awdur ymysg y disgyblion? Diolch i Bethan Gwanas am gynnal y sesiwn, a gobeithio y gallwn ei chroesawu nôl i'r ysgol yn y dyfodol agos.



**Croesawu a ffarwelio**
Rydym yn edrych ymlaen i groesawu Mrs Medway yn ôl atom yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Ond ar yr un pryd bydd yn drist ffarwelio â Miss Williams sydd wedi bod yng ngofal CA1 yn ystod absenoldeb Mrs Medway. Diolch Miss Williams am eich holl waith – pob lwc yn y dyfodol, a chofiwch ddod draw i'n gweld!

**Bingo haf**
'Eyes down' oedd hi yn Ysgol Rhiwlas yn ddiweddar wrth i'r ysgol gynnal noson bingo haf. Cafwyd noson werth chweil, a diolch i bawb am gefnogi.


J. TEMPLE MORRIS
A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân – Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i Esther Llugwy Parry o Lôn y Wern, Tregarth am ddod yn fuddugol yn yr unawd llinynnol bl 10-13 yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifiod. Mae h'n dipyn o gamp dod i'r brig yn genedlaethol, a mwy fyth gyda Esther ym ml 10 ac felly ymysg yr ieuengaf yn y gystadleuaeth! Mae Esther yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan gan dysgu'r cello gyda Elin Taylor yng Nghanolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon ac yn yr ysgol trwy Wasanaeth Cerdd Ysgolion. Gwych Esther!




**Cywiriad**
Gobeithio bod Angharad a Gerallt wedi mwynhau dathlu eu priodas aur oedd yn digwydd ar 6ed o Orffennaf, nid Mehefin fel yr adroddwyd yn y Llais y mis diwethaf. (Dylai'r cyfrannwr fod yn gwybod yn iawn a hithau yn forwyn briodas!

## Wythnos Cymorth Cristnogol 12fed – 19eg Mai 2024

Thema Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd cefnogi cymunedau amaethyddol yn Affrica, sydd wedi dioddef oherwydd newid yn yr hinsawdd, gyda ffocws ar Aline, sydd yn ffermio yn Nhalaith Makamba, Burundi.

Fel y llynedd, cafodd yr amlenni eu dosbarthu i gartrefi'r ardal a gofynnwyd i bobl eu dychwelyd i fannau casglu, sef Partneriaeth Ogwen a Siop Rachub. Rydym yn ddiolchgar i'r ddau sefydliad hyn am gytuno i'n helpu. Rhoddwyd cyfeiriad lleol arall ar gyfer Talybont a chafwyd casgliad drws i ddrws yn Llandygai. Diolch yn fawr hefyd i bob gwirfoddolwr a roddodd yr amlenni drwy'r drysau ym Methesda, Tregarth, Gerlan, Rachub, Llanllechid, Carneddi a Thalybont.

Roedd yn braf iawn cynnal bore coffi eleni ar 18fed o Fai yng Nghanolfan Cefnfaes. Diolch yn fawr i Neville Hughes am ei drefnu, y stondinwyr a'r helpwyr a phawb wnaeth fynychu. Llwyddwyd i godi £471.64, swm ardderchog sy'n cynnwys cyfraniad o £50 gan Ddrws Agored Shiloh, Tregarth.

Diolch i'r Parch. Nerys Griffiths a'r Parch, Sara Roberts am drefnu ac arwain y gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol ar y cyd yn Eglwys Glanogwen nos Sul 19eg o Fai. Casglwyd £73.27 at yr achos.

Cafwyd £100 fel rhoddion gan eglwysi eraill yr ardal, sef Eglwys y Gelli yn Nhregarth ac Eglwys Sant Tegai, Llandygái. Cyfrannodd

**Gwellhad buan**
Dymunwn adferiad buan i Llywela O'Brien, 4 Craig Menai, Bangor Uchaf (gynt o Dregarth) sydd yn Ysbyty Gwynedd ar ôl torri ei chlun.

Rydym yn anfon ein cofion at Mrs Linor Holland, Perthi, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, a dymunwn wellhad buan iddi.

Llongyfarchiadau i David Emlyn a Bethan 24 Ffordd Tanrhiw, ar enedigaeth merch fach ym mis Mehefin. Croeso Enya Swyn ac mae'n siwr bod nain a taid a hen nain a taid Tarinth wrth eu boddau.

**Diolch**
Dymuna Fred Buckley, Maes Ogwen, ddiolch yn fawr i bawb am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben blwydd yn 90 oed. Cafodd benwythnos bythgofiadwy.

**Profedigaeth**
Bu farw Robin Mouzer, ar Fai 28, tra ar ei feic yn Ffordd Tanrhiw, Tregarth. Byddai ef a'i deulu yn dod yn rheolaidd i aros yn Fferm Dinas. Bu farw er gwaethaf ymdrechion trigolion lleol a'r gwasanaethau brys yn Ysbyty Gwynedd yr un diwrnod. Mae ei deulu wedi diolch o galon i drigolion y pentre am eu caredigrwydd mawr i helpu, yn arbennig Owenna a Les Roberts fu'n gymaint o gefn i Robin a'i briod. Dwi'n sicr ein bod ni i gyd yn anfon ein cofion at y teulu.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Alwyn ac Allison Ellis a'r teulu, 41 Tal y Cae, yn eu profedigaeth annisgwyl o golli chwaer Alwyn, sef Bethan Evans, o Amwythig ond yn enedigol o Fangor ar Fai 27.

Daeth newyddion arbennig o drist ar Fehefin 21 am farwolaeth Selwyn Rhys Williams, mab Alwena a David Williams, Arlun, Braich Talog, Tregarth ac yntau yn 28 mlwydd oed. Roedd Rhys yn frawd i Gareth, Anna ac Alys ac yn wyr i'r diweddar Brenda a Selwyn Owen a Brenda a Selwyn Williams. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar Orffennaf 9. Yn meddwl amdanoch fel teulu ar yr adeg hynod o drist i chi gyd.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Daeth criw da iawn o'r aelodau ynghyd Nos Lun, Mehefin 3, i Festri Capel Shiloh. Cyflwynodd y llywydd Carol Jones y wraig wadd sef y Parchedig Nerys Griffiths, Caernarfon ddaeth i siarad am ei gwaith fel 'Gweinidog yn yr oes fodern'. Mae Nerys wedi

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk




Eglwys Glanogwen trwy gynnal stondin yn y bore coffi.

Derbyniwyd £1,158.48 yn ôl yn yr amlenni, ac ar ben hynny ni wyddom faint o bobl sydd wedi rhoi trwy dderbyn yr opsiwn gwneud rhodd ar-lein a oedd ar yr amlen hefyd. A bydd modd i Gymorth Cristnogol hawlio £150.50 trwy Rodd Cymorth gan y rhai sy'n medru manteisio arno.

Mae'n braf cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi cymaint o arian eleni, er gwaetha'r amgylchiadau ariannol caled sydd yn ein hwynebu. Codwyd £1,803.40 yn uniongyrchol trwy'r gweithgareddau, sy'n cynyddu i gyfanswm o £1,953.90 gyda Rhodd Cymorth.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos.

Lester Bath, Cydlynydd Wythnos Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch.




bod yn y weinidogaeth ers blwyddyn bellach ac yn weinidog ar nifer o gapeli yn yr ardal gan gynnwys yr Eglwys Unedig ym Methesda – Capel Jeriwsalem. Cafodd ei magu yn ferch i'r Parchedig Huw Pritchard a'i briod, Llangefni ac fel merch i weinidog bu yr Ysgol Sul ac Oedfaon y capel yn bwysig yn ei bywyd. Penderfynnodd yn y blynyddoedd diwethaf fod ei bryd zr fynd i'r weinidogaeth ac wedi cyfnod o astudio a meddwlgarwch daeth y cyfle iddi gael ei swydd fel gweinidog ym Methesda.

Braf iawn oedd gwrando arni'n siarad yn ddiffuant am ei galwedigaeth a dymunwyd y gorau iddi yn y barchus swydd. Diolchodd Gwenda iddi am ei chyflwyniad annwyl ac onest ac am ddangos inni pa mor bwysig ydi'r swydd iddi fel gwraig ifanc yn y Gymry rydym yn byw ynddi.

Bydd y tymor yn dod i ben Dydd Sadwrn, Gorffennaf 6, gyda gwibdaith i'r Ysgwrn, Trawsfynydd, gyda chyflwyniad am y datblygiadau diweddaraf yn y ganolfan. Ar y ffordd adref byddwn yn cael pryd o fwyd fel criw ym Mwyty y 'Grapes' yn Maentwrog. Diolch o galon i'r pwyllgor am eu gwaith diwyd ynn paratoi ar ein cyfer.

Bydd y gangen yn cychwyn ei thymor newydd ar Nos Lun, Medi 2, yn Festri Capel Shiloh Newydd, Tregarth. Croeso cynnes iawn i bawb.

**Arddangosfa Celf**

Yn y Ganolfan yn Nhregarth bydd arddangosfa o waith yr artist Peter Smith, Bro Syr Ifor, o Ddydd Gwener, Awst 23 hyd Ddydd Sul, Medi 1. Mae Peter wedi cael amryw o arddangosfeydd yn Nhregarth ar hyd y blynyddoedd a dyma gyfle ardderchog eto i weld gwaith yr artist amryddawn sydd yn byw yma yn ein plith ers bron i hanner can mlynedd.

Daeth Peter i'r Brifysgol i Fangor yn 1965 i astudio Bioleg y Mor ac y 1970 penderfynodd ei fod am weithio fel artist. Bu'n athro am gyfnod yn Ysgol Breifat Hillgrove ym Mangor ac ar hyd y blynyddoedd ei freuddwyd oedd cael gweithio yn yr awyr agored ac yn arbennig pwysleisio pwysigrwydd cadwraeth.

Mae ei waith fel artist yn rhoi inni olwg ar Eryri, Dyffryn Ogwen a Thregarth, y pentre lle mae wedi trigo ynddo a lle mae o a Sally ei wraig wedi dwyn eu plant yma yn ein mysg.

Rydym yn lwcus iawn i gael cyfle unwaith eto i weld dawn Peter Smith a bydd yr arddangosfa ar agor yn y pnawniau a rhai dyddiau gyda'r nos hefyd. Am fwy o wybodaeth am amseroedd agor mae modd cysylltu hefo Peter ar 01248602351. Pob dymuniad da iddo a chofiwch droi i mewn i'r Ganolfan Gymdeithasol i weld ei waith.

**Capel Shiloh Newydd**

Mae oedfa yn Shiloh bob nos Sul am 5 o'r gloch.

Gorffennaf 21 – Dewi Morris, Porthmadog (4 o'r gloch)
Gorffennaf 28 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Awst – Ni fydd oedfaon yn Shiloh yn ystod mis Awst
Medi 1 – Megan Williams, Porthaethwy
Medi 8 – Olaf Davies, Llandegfan
Medi 15 – Philip Barnett , Swydd Efrog
Medi 22 – Dr Ian Morris
Medi 29 – Nerys Griffiths, Caernarfon
Hydref 6 – Eric Jones, Bangor
Hydref 13 – Dafydd Iwan, Cae Athro

**Drws Agored**

Er na fydd oedfaon yn Mis Awst mi fydd drws ar agor yn Shiloh Newydd bob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch. Croeso i bawb !

**Y Beibl Gwau**

Diolch o galon i bawb o'r ardal ddaeth draw i weld arddangosfa y Beibl Gwau. Arddangosfa a grewyd yn Hartleypool, Swydd Durham oedd hon ona bu Ffion Rowlinson yn cyfieithu popeth i'r Gymraeg a bu rhai o aelodau Shiloh ac aelodau y clwb gwau 'O Res i Res' o Bethesda yn gwau sgwariau ar gyfer y faner oedd yn hysbysebu'r arddangosfa.

Diolch o galon i'r merched a'r dynion fu'n croesawu yr ymwelwyr ac yn paratoi y te ar gyfer pawb ddaeth draw i Shiloh. Diolch i bawn am eu cyfraniadau hael!

Mor braf oedd cael cwmni plant ysgol Tregarth a fwynhaodd yr holl waith gwau cymeriadau y 36 o storiau Beiblaidd.

Bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a daeth criwiau o Bwllheli, Llansannan, Llandegla, Dyffryn Ardudwy, Corwen, Caerfyrddin a llawer man arall. Diolch i bob un ohonoch!

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# YSGOL TREGARTH

**Gweithdy Technocamps**
Cafodd disgyblion Dosbarth Llywelyn y pleser o gymryd rhan mewn gweithdy Technocamps yn ddiweddar. Yn ystod y bore, bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn dysgu sut i raglennu ‘crumble’ er mwyn goleuo set o oleuadau amrywiol. Yn ystod y prynhawn, cafodd blwyddyn 3 y cyfle i ddefnyddio microbit. Roedd llawer o sgiliau wedi’i ddatblygu yn ystod y sesiynau. Diolch yn fawr Alex am ddod draw.





**Gweithdy Maint Cymru**
Bu cynnwrf yn nosbarth Llywelyn pan gyrhaeddodd anifeiliaid y goedwig law yr ysgol un bore. Daeth Eleri o ‘Maint Cymru’ atom i gynnal gweithdy diddorol dros ben! Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn dysgu am bwysigrwydd y coedwigoedd glaw, sut gall bobl ofalu am yr anifeiliaid yn ogystal â dysgu ffeithiau anhygoel am yr orangwtan.

**Cystadleuaeth Criced Yr Urdd**
Cafodd blwyddyn 3 a 4 y cyfle i gystadlu mewn cystadleuaeth criced tro yma. Trefnodd swyddogion Yr Urdd gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Eryri draw yng nghlwb criced Bangor. Ar ôl dipyn o ymarfer yn yr ysgol, aeth dau dîm o Dregarth draw’r gynrychioli’r ysgol. Llwyddodd i dîm B i ennill un, colli un a chael un gem gyfartal. Aeth tîm A cham ymhellach a chyrraedd y rownd derfynol. Yn anffodus, colli oedd eu hanes nhw yn erbyn tîm cryf o Ysgol Llanllechid. Ysgol yn falch iawn o bob un plentyn oedd wedi cynrychioli’r ysgol yn ystod y diwrnod.







**Teithiau cerdded**
Aeth plant blwyddyn 3 a 4 ar daith cerdded o Abergwyngregyn holl ffordd i Blas Ffrancon. Cerddodd y plant dros 8km i gyd gan gynnwys cyrraedd copa Moel Faban ar ddiwedd y daith. Y diwrnod cynt, aeth plant o flwyddyn 5 a 6 i fyny at gopa’r Aran. Cychwyn o Ryd Ddu a cherdded holl ffordd i dop y copa (747m). Yr holl blant wedi dangos gwytnwch, dyfalbarhad, gwaith tîm a mwynhad drwy gydol y daith. Diolch yn fawr i staff Heicio a Beicio Eryri am ein harwain ar y teithiau.



**Cystadleuaeth Athletau’r Urdd**
Roedd hi’n braf cael croesawu cystadleuaeth athletau’r Urdd yn ôl. Cyfle i blant o flwyddyn 3 i fyny i ddangos eu doniau drwy redeg, neidio a thaflu. Roedd yn gyfle i’r plant gystadlu yn unigol ac fel tîm. Profiad cyntaf i amryw o blant a phawb gwir wedi mwynhau’r diwrnod. Pob un wedi gwneud yn wych gydag amryw o blant wedi llwyddo i ddod yn 1af 2il neu 3ydd. Da iawn chi blant!

# Nyth y Gân

## Y TELYNOR

Â'i dalent deffrôdd delyn, a hynod
Yw'r hanes o'r cychwyn;
Seiniau pêr o'r offeryn,
Alaw deg dan ddwylo dyn.



**John Roberts (Alaw Elwy), 'Telynor Cymru' (1816-1894).**

## FFRYDIAU

O'r bryn drwy'r rhedyn rhedant, a'u synau
Yn swynol eu nodiant;
O'u rhyddid hwy a roddant
Yno i ni ddŵr glân y nant.

## Y CHWAREL

Hon ddenodd yno ddynion i guro'r
Las garreg o'r dyfnion;
Mor lân fu cân y cynion
Â'u tinc yn atsain sawl tôn.

Daeth sŵn sawl tonc o'r ponciau o daro
Y dur ar y creigiau;
Eu taro eto'n glytiau
Yno â llaw i'w lleihau.

## NIWL MYNYDD

Apeliwn am gipolwg o fynydd
A'i feini fu'n amlwg;
Rhyw chwarae y mae fel mwg,
A gelyn yw'n ein golwg.

**Dafydd Morris**

# Natur o'n Cwmpas

## Enwau Creaduriaid yn ein Henwau Lleoedd (Rhan 4)



Un o weunydd Gwern Gof Isaf yn Nant y Benglog yw Waun Fflogyn sy'n cyfeirio at y cyfflogyn – y cyffylog – aderyn yr oedd llawer mwy o hela arno 'slawer dydd am ei gig a'i blu. Dyma aderyn nad yw'n hawdd ei weld gan ei fod yn cadw ynghudd mewn coedlannau a gweunydd, a'i blu brith yn guddliw gyda'r mwyaf ffeithiol. Ei gynhaliaeth yw chwilod a phryfed genwair. Pan gaiff ei darfu, bydd yn hedfan yn igam-ogam gan gadw mor agos at y ddaear ag y medr ac osgoi coed yn ddeheuig. Mae'r rhan fwy o'r cyfflogod sy'n magu yng Nghymru yn adar cynhenid, ond weithiau bydd rhai o'r Ffindir a Rwsia yn ymuno â hwy dros y gaeaf.

Heb fod ymhell o Waun Fflogyn mae Llyn Ogwen, ac ymhlith y plu pysgota a fyddai'n cael eu cawio gan bysgotwyr yr ardal er mwyn dal brithyll y llyn roedd Aden Cyffylog ar Gorff Llwyd-felyn a Thraed Llwydion, ac Aden Cyffylog ar Gorff Lliw Rhwd Haearn a Thraed Cochion. Sylwch mai lliw rhwd haearn a ddefnyddid i ddisgrifio'r lliw oren. Ceir cofnod o'r ddwy bluen yn *Llawlyfr y Pysgotwr* gan William Roberts, Ty'n y Maes, a gyhoeddwyd yn 1899.

Ar gwr Waun Fflogyn mae darn o dir ar lan afon Llugwy o'r enw Pyllau'r Dyfrgwn. Roedd dyfrgwn yn llawer mwy niferus erstalwm a bu cryn hela arnynt gyda chŵn. O ganlyniad i wahardd eu hela yn 1978, a gwella ansawdd dŵr croyw drwy weithredu'n erbyn llygredd cemegol, cafwyd peth cynnydd yn eu niferoedd. Fodd bynnag, mae'r arolygon diweddaraf yn dangos gostyngiad cyffredinol drwy Gymru. Pan oeddem ni'n blant yn yr 1950au, roedd ci dŵr – dyma'r enw arno'n lleol – yn Llyn Maen ar afon Gaseg uwchlaw Pont Waun. Mae nifer dda o flynyddoedd ers pan glywais gan un o bysgotwyr y fro ei fod, yn gynnar iawn yn y bore, wedi weld ci dŵr efo nifer o rai bach yn afon Ogwen. Tua'r un adeg, clywais gan gydnabod arall ei fod wedi gweld un yn afon Ffrydlas wrth Bont Pant. Fodd bynnag, y tro diwethaf i mi wylio ci dŵr yn y gwyllt oedd bedair blynedd yn ôl, a hynny yn afon Wysg ger Gilwern, rhwng Crucywel a'r Fenni ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ar un adeg, yr oedd sarn, sef cerrig rhyd, o'r enw Sarn yr Afanc i groesi afon Ogwen yn Nant Ffrancon, ac mae hyn yn tystio i fodolaeth afancod yn y marddwr bum can mlynedd yn ôl. Yr hen enw ar yr anifail hwn oedd llostlydan – ystyr 'llost' yw 'cynffon'. Nid yr afanc a roddodd yr enw 'ffrancon' i'r Nant, er i rai ddyfalu mai Nant yr Afancod oedd yr enw'n wreiddiol. Lluosog y gair 'ffranc' yw 'ffrancon', ac yn ôl yr ysgolheigion mae dau darddiad posib i'r gair 'ffranc', sef 'milwr llog' (milwr cyflogedig o dir mawr Ewrop yn yr Oesoedd Canol) a 'gwaywffon'. Felly, 'dyffryn y milwyr llog' neu 'ddyffryn y gwaywffyn' yw ystyr Nant Ffrancon.

A welir eto afancod yma yn ein hardal ni? Yn 2021, cyflwynwyd teulu o afancod i warchodaeth natur Cors Dyfi ger Machynlleth fel arbrawf, a bydd effaith eu presenoldeb ar y drefn ecolegol yn cael ei mesur yn ofalus cyn penderfynu a gânt eu cyflwyno'n fwy cyffredinol ai peidio.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Cinio Mawr Pentir**
Bu newid yn nyddiad  cinio blynyddol  Pentir. Bydd nawr yn cael ei gynnal ar 27ain Gorffennaf ychydig lathenni o'r sgwâr.

**Rhwyfwr o Bentir ar y llwyfan rhyngwladol**
Yn ddiweddar, bu Cedol Dafydd o Bentir yn cystadlu yn y Cwpan Byd III Rhwyfo yn ninas Poznan, Gwlad Pwyl yng nghystadleuaeth 'double skulls' dynion.  Ras dros bellter o 2km ydy hon gyda'r enillwyr o'r Iwerddon yn cymryd o dan 6 munud a hanner i'w chwblhau.  Eto i gyd, roedd Cedol a'i gyd-rwyfwr, Stephen Hughes yn falch iawn o'i 4ydd safle, hanner eiliad o flaen y pâr o Ffrainc oedd yn enillwyr medal aur yng Ngemau Olympaidd Tokyo.

Mae Cedol bellach wedi ymsefydlu yn Henley-on-Thames ac yn rhwyfo'n broffesiynol. Llongyfarchiadau Cedol ac mae holl drigolion Pentir yn dymuno'n dda iti yn y dyfodol.



## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Mynwent yr Eglwys**
Hoffwn ddiolch i bawb a gyfranodd tuag at Gronfa Mynwent St. Cedol. Ar ôl amser mae'r fynwent yn awr wedi ei thori a'i thacluso. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

**Clwb Crefftau**
Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod a'r yr 2ail a'r 4ydd Prynhawn Gwener o bob mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Cyngerdd**
Nos Wenr y 21ain o Fehefin cynhalwyd cyngerdd o Sain, Cerdd a chân, sef noson o gerddoriaeth a llên yn Eglwys St. Cedol, gyda'r artistiaid Sharon Williams a'r yr Organ, Sioned Roberts, Clarinet, Cedron Sion, enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel, Cai Fôn, enillydd Gwobr Richard Burton, Cefin Roberts a Eirwen Williams. Braf oedd gweld cynifer wedi dod yng nghyd i fwynhau noson wych. A'r elwyn yn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio yr Eglwys. Diolch i bawb am ei cefnogaeth.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, bydd y Tê Bach nesaf ar y 7fed o Awst ag yna a'r y 4ydd o Fedi. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Hamper Misol**
Rydym cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i cynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Mai oedd Alison Jones yn roddedig gan Eirwen, enillydd yr Hamper Mis Mehefin oedd David Emlyn Williams yr hamper yn roddedig Eirwen, Nia a Sharon. Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estenedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Sêl Blanhigion**
Cynhaliwyd Sêl Blanhigion yn Eglwys St. Cedol a'r Dydd Sadwrn yr 11 Fai, Hoffwn ddiolch i bawb a cefnogodd y gwerthiant a'i gwneud yn ddiwrnod llwyddianus dros ben. Hefyd mae'n diolch yn enfawr i Gaynor am feithrin yr holl blanhigion. Bydd yr elw i gyd yn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio yr Eglwys. Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich gefnogaeth.

**Cystadleuaeth**
Mae plant Ysgol Gynradd Rhiwlas wedi bod yn brysur yn darlunio beth oedden nhw yn meddwl fasa yn briodol fel Mascot i Eglwys St. Cedol. Yr enillydd oedd Tylluan gan Kaitlin o ddosbarth 2 ac yn gydradd ail oedd Seren Liwgar gan Harri o ddosbarth derbyn ag Crwban gan Owi o Dosbarth 1. Beirniadwyd y gystadlaeaeth gan Y Parch Ddr. Gareth Lloyd a Mrs Elizabeth Lloyd. Diolch yn fawr i chi gyd blantos am waith mor wych.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

# Llyfrau


**Gwaddol**
Nofel gan ***Rhian Cadwaladr***
Gwasg Carreg Gwalch, £8.99

**Mae teuluoedd yn bethau cymhleth...**
Hanes pythefnos dyngedfennol ym mywyd tair cenhedlaeth o un teulu ydi *Gwaddol*, nofel newydd Rhian Cadwaladr, yn taflu golwg ar berthynas mam a merch, galar a chariad.

Mae Myfi yn dathlu ei phen blwydd yn 80. Er ei bod wedi byw bywyd llawn a gweithgar mae hi'n dechrau teimlo'i hoed, ac mae'r rhan fwyaf o'i chyfeillion bore oes wedi marw. Sut all hi i ddod i delerau â hen gyfrinach sydd wedi bod yn gysgod drosti ers dros hanner canrif?

Delyth yw merch Myfi, sy'n dal i alaru yn dilyn marwolaeth sydyn ei gŵr ddwy flynedd ynghynt. Yn ogystal â cheisio talu'r dyledion adawodd Medwyn ar ei ôl, mae hi'n teimlo fel y llenwad yn y frechdan wrth geisio edrych ar ôl ei mam a'i merch ugain oed, Anna, sy'n mynnu tynnu'n groes i'w mam.

Brawd Delyth ydi Robin, a fo ydi ffefryn amlwg Myfi. Mae'n ceisio trefnu parti pen-blwydd syrpréis i'w fam, ond mae'n ei chael yn anodd cadw'i wraig, Julie, a'i chwaer yn hapus.




Mae *Gwaddol* yn edrych ar y gwead cymhleth sy'n dal teulu ynghyd – y cystadlu a'r cenfigen, y dyletswydd a'r cariad – a sut mae hyn yn gallu newid wrth i'r to hŷn heneiddio a'r ieuenctid droi yn oedolion.

Medd Rhian Cadwaladr, 'Er bod y nofel yn delio â themâu difrifol mae yma gryn dipyn o hiwmor hefyd. Rydw i wedi trïo plethu'r llon a'r lleddf a chreu darlun  o fywyd go iawn sydd, gobeithio, yn gredadwy. Yn sicr mae'r cymeriadau yn fyw yn fy meddwl i. Dwi wedi mwynhau eu creu nhw – nid yn unig y prif gymeriadau ond y cymeriadau ymylol, y cameos bach lliwgar fel Tez Tatŵs a Beti Coesa Cowboi.

Er mai hon yw ei phumed nofel, tydi disgwyl am yr ymateb cyntaf i'r llyfr ddim yn mynd yn haws, yn ôl Rhian. 'Mae cyflwyno'r cymeriadau i'r darllenwyr yn deimlad od a phryderus – os rywbeth mae'n mynd yn waeth efo pob nofel gan 'mod i ofn eu siomi, ac er bod hyn yn mynd i swnio'n hollol boncyrs, dwi ofn gadael fy nghymeriadau i lawr!

# Mapio Mwsog







Mae Mapio Mwsog yn un o syniadau prosiect Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Dyffryn Ogwen, er bod y 'tîm mwsog' wedi bod yn dysgu ac addysgu am fwsog ers llawer hirach. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ecolegydd ac artist Emily Meilleur wedi bod yn arwain teithiau cerdded mwsog yn Nyffryn Ogwen. Ar ôl ychydig, daeth ei ffrindiau Emily Farrel ac Alys Wardle i ymuno â hi, a treulion lawer o Suliau hir dros y gaeaf gyda'i gilydd yn cerdded trwy goedwigoedd gyda lensys llaw, yn chwilio am fwsogl a dysgu amdano.

**Pam mwsog?**

I lawer ohonom, mae'n debyg bod mwsogl yn rhywbeth nad ydym yn talu llawer o sylw iddo. Ac eto mae rhwng 12,000 a 15,000 o rywogaethau o fwsogl wedi'u cofnodi – ac maen nhw'n llawer pwysicach, a diddorol, nag y byddech chi'n meddwl.

Mae mwsoglau yn arbenigwyr ar ddal a storio carbon deuocsid o'r atmosffer, yn ogystal ag amsugno llygredd aer. Roeddwn i'n arfer meddwl bod mwsogl yn tyfu ar fy mhridd yn rhywbeth i boeni amdano, ond nawr rydw i wedi dysgu ei fod yn helpu i atal erydiad pridd, ac yn helpu i reoli tymheredd y pridd a chadw lleithder. Mae mwsog yn cyfrannu at greu ecosystemau iach sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac yn wytn yn erbyn amrywiadau yn yr hinsawdd.

Mae mwsoglau hefyd yn rhan greiddiol o stori ein planed werdd: gwnaethant esblygu o algâu gwyrdd tua 470 miliwn o flynyddoedd yn ôl, sy'n eu gwneud nhw yn un o'r planhigion tir cynharaf – mewn ffordd, mae'n eu gwneud yn un o hynafiaid cynharaf bywyd planhigion y tu hwnt i'r môr .

**Prosiect Mapio Mwsog**

Wedi'i lansio'n swyddogol ar Hydref 21ain, 2023, Diwrnod Cenedlaethol Mwsogl, dechreuodd y prosiect Mapio Mwsog gyda thaith mwsogl ym Methesda. Wedi'i harwain gan Emily Meillieur a'i chefnogi gan Alys Wardle, Emily Farrell, a Catharine Moss, denodd y daith 35 o gyfranogwyr eiddgar. Ni cawsant eu rhwystro gan y glaw, a treulion amser yn astudio'r amrywiaeth gyfoethog o fryoffytau (sy'n cynnwys mwsogl, llysiau'r afu a llysiau'r afu deiliog) yn tyfu ar goed, creigiau, a waliau.

Yn dilyn lansiad y prosiect, mae'r tîm Mapio Mwsog wedi bod yn mynd â phobl ar deithiau cerdded mwsogl rheolaidd i astudio'r mwsoglau yn y dyffryn, yn ogystal â threfnu diwrnodau celf lle mae oedolion a phlant yn casglu samplau o fwsogl a'u defnyddio i ysbrydoli barddoniaeth a chelf yn seiliedig ar beth maent yn gweld ac yn teimlo.

Yn ogystal â cheisio annog pobl i arafu a sylwi ar y byd naturiol o'u cwmpas, nod prosiectau Mapio Mwsog yw cofnodi a storio gwybodaeth am fwsoglau a llysiau'r afu yn Nyffryn Ogwen. Bydd hyn yn helpu i ddarparu llinell sylfaen ar gyfer monitro yn y dyfodol ac i olrhain newidiadau dros amser, gan ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i iechyd a gwytnwch yr ecosystem.

Gan ddechrau gyda naw pwynt penodol yn Nyffryn Ogwen, bydd tîm Mapio Mwsog yn cofnodi ac yn arolygu mwsoglau a llysiau'r afu – gyda lensys llaw, microsgopau a'r llygad noeth. Bydd Partneriaeth Ogwen a GwyrddNi yn cefnogi a hyrwyddo'r prosiect ochr yn ochr â'r tîm mwsogl.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y prosiect Mapio Mwsog, i gymryd rhan neu i ymuno â thaith mwsog, cysylltwch â Chris, Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi Dyffryn Ogwen (chris@ogwen.org).

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**

*Gwyliau!*

Dymunwn wyliau dedwydd iawn i holl blant a staff ein hysgol eglwys, Ysgol Llandygai, ac wrth gwrs i'n gwirfoddolwyr, ffrindiau a chefnogwyr yn y pentref ac ymhellach. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ffyddlon dros flwyddyn llawn bwrlwm. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Mrs Manon Griffiths sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i blant Ysgol Llandygai. Bydd yr ysgol yn ei cholled.

*Diolch*

Diolch eto i aelodau'r gynulleidfa ac i gefnogwyr allanol am barhau i gyfrannu'n ariannol ac am ymateb mor ffyddlon i Apêl Mis Rhodd St Tegai ym Mehefin.

Unrhyw fanylion pellach gan y swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

*Rhodd Arian gan Gyngor Cymunedol Llandygai*

Hoffem ddiolch i Gyngor Cymuned Llandygai am y cyfraniad at gynnal a chadw y fynwent. Fel y gwyddoch, mae pob eglwys yn gyfrifol am dorri gwair, rheoli tyfiant coed, cynnal a chadw waliau a giatiau yn eu mynwentydd. Mae hyn yn gostus iawn ac rydym yn dra diolchgar i'r Cyngor am gefnogi ein cais am arian. Mae mynwent St Tegai yn gwarchod beddau o blwyf hanesyddol Llandygai oedd yn gwasanaethu cymunedau Tregarth, Mynydd Llandygai a Nant Ffrancon hyd at Gapel Curig.

*Taith bythgofiadwy*

Mae Rachel Tombs wedi cyrraedd yn ôl ar ôl cyfnod yn Tseina. Bu drosodd yn Changsha, talaith Hunan, i arholi myfyrwyr yn Saesneg. Am brofiad, Rachel! Edrychwn ymlaen i glywed hanes y daith.

*Croeso'n ôl*

Pleser oedd croesawu'n ôl Dr Daphne Russell i'r pentref ac i'r eglwys, er mai dod i glirio'r tŷ oedd yr achlysur. Mae'n chwith gwybod na fydd hi yn byw yn y pentref mwyach ond dymunwn yn dda iddi yn ei chymuned a'i heglwys ym Mathgate, Caeredin. Croeso'n ôl dros dro i Richard Douglas Pennant a'i deulu. Cyfle i'r ŵyr bach newydd, Richard Polo, ddod i adnabod ei wreiddiau! Mae'r teulu yn hapus i osgoi y tywydd crasboeth yng Nghyprus.

*Colled Drist*

Cydymdeimlir yn fawr â theulu Adrian Williams Bryn Llandygai ar golli cymar, tad a thaid amhrisiadwy. Cydnabyddwn gyda diolch ei flynyddoedd o waith fel archwilwr cyfrifon yr eglwys.

*Cydymdeimlo*

Syndod i bawb oedd clywed am golli un o'n cymdogion, sef Adrian Williams, Moel Wnion, Bryn. Bu farw ar Mehefin 8 ed yn dilyn llawdriniaeth mewn Ysbyty yn Lerpwl. Rydym yn cydymdeimlo â Maud, a'i blant Gwawr ac Euryn a'r holl deulu. Hoffem ddymuno gwellhâd buan i Maud. Cofion ati.

*Llawdriniaeth*

Gwellhâd buan i Liz Jones Rhif21 o'r Pentref yn dilyn llawdriniaeth ychydig yn ôl.

*Eglwys Agored*

Mae'r eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

*Newyddion o'r Clochdy*

Canodd y clychau er cof am D Day, Mehefin 6ed 1944 a daeth 8 clochydd i'r tŵr i ddangos dyledus barch a chydnabyddiaeth i'r achlysur. Hefyd ar ddechrau Mehefin daeth criw o glochyddion o Wyke Regis ger Dorchester ar wyliau i Ogledd Cymru er mwyn manteisio ar y cyfle i ganu mewn gwahanol glochdai. Tro St Tegai oedd hi ar fore Sul Mehefin 9fed. Roeddem yn falch o glywed fod yr ymwelwyr wedi mwynhau y profiad!

**Gwasanaethau**

**Ar y Sul** – Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher** – Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt** – Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys

## Cyngor Cymuned Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 20fed o Fehefin yn rhithiol dros Zoom.

**Tai gwag**

Adroddwyd fod gan y Cyngor bryderon ynglŷn â nifer o eiddo cymdeithasol gwag yn ardal Dregarth. Nodwyd fod o leiaf 3 tŷ gwag yn Nhregarth, gydag un eiddo ym Mro Syr Ifor wedi bod yn wag ers o leiaf 9 mis. Soniwyd fod y Clerc wedi cysylltu eisoes gyda'r gymdeithas tai Adra ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr o gŵyn at Brif Weithredwr Cymdeithas Tai Adra, Iwan Trefor Jones.

**Car a Threlar ger Bro Syr Ifor**

Adroddwyd fod car a threlar wedi'i adael ger y byngalos ym Mro Syr Ifor ers rhai blynyddoedd pellach. Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda chymdeithas tai Adra a Chyngor Gwynedd eisoes, ond heb dderbyn ymateb. Yn dilyn y cyfarfod, atafaelwyd y car gan swyddogion heddlu, ond mae'r trelar dal yno. Cytunwyd bydd y Clerc yn codi pryderon iechyd a diogelwch y trelar gyda'r sefydliad priodol.

**Pyst Cae Pêl droed Tregarth**

Adroddwyd fod pyst pêl droed wedi diflannu oddi ar y cae yn Nhregarth, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

**Seddi Gwag**

Adroddwyd fod dwy sedd wag dal ar gael ar y Cyngor Cymuned – un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandygai) ac un sedd Ward Llandygai. Mae' Cyngor yn awyddus iawn i gael llenwi'r seddi hyn, os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth: e-bost cyngorllandygai@ogwen.org neu 01248 602131.

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 18fed o Orffennaf am 18.30 yn Neuadd Goffa.

**WALIO FFRANCON**

**Cysylltwch am Waith**

Trwsio/Codi Waliau

Clirio Gerddi ac Ysbwriel

**07766 157552**

**07464 085759**

# Carnifal i'w gofio unwaith eto ym Methesda!





Cel Pwyllgor, hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth allan i'r Carnifal, a gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau!

Roedd hi'n 12 mis prysur i'r Pwyllgor yn trefnu'r diwrnod mawr a'r holl weithgareddau codi arian. Hoffem ddiolch i bawb am roi mor hael yn ystod y flwyddyn a chefnogi ein digwyddiadau. Diolch i JR Scaffolding, Anglesey Solar and Electrical Ltd a Welsh Slate am fod yn brif noddwyr y Carnifal flwyddyn yma. Rhaid diolch hefyd i'r holl fusnesau bach lleol ddaru noddi'r digwyddiad oherwydd heb eu cefnogaeth ni fuasai'r Carnifal yn gallu digwydd. Roedd eu cyfraniad



caredig yn hwb gwerthfawr iawn i'n hymdrechion codi arian, gan sicrhau bod y Carnifal unwaith eto yn ddigwyddiad cymunedol hynod lwyddiannus.

Roedd 'na ddigon i wneud ar y cae yn ystod y diwrnod – cystadleuaeth gwisg ffansi i bob oedran, arddangosiadau gan y majorettes a clwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn. Croesawom band a DJ lleol i'r llwyfan sef DJ Beatbreaker a Ben Twthill. Roedd stondinwyr yn gwerthu crefftau a digon o ddewis stondinau bwyd yno hefyd. Roedd yn brynhawn llawn hwyl i'r gymuned gyfan.

Diolch i chi gyd am fod yn rhan o Garnifal Bethesda 2024. Diolch arbennig i Gwawr, Connor, Myla a Marley-Jay am fod yn deulu brenhinol gwerth chweil. Roeddent i gyd yn edrych mor swanc yn eu gwisgoedd.

Bydd y Pwyllgor yn trefnu nosweithiau codi arian ar gyfer dechrau'r gronfa ar gyfer cynnal Carnifal yn 2025. Tê prynhawn a noson bingo sydd ar y gweill yn gyntaf. Cadwch eich llygaid allan am y dyddiadau.

Os ddaru chi fwynhau'r diwrnod ac hoffech weld y Carnifal yn digwydd eto flwyddyn nesaf, gofynnwn yn garedig i chi roi arian mân yn y bwcedi pinc fydd yn ein siopa lleol yn fuan. Neu mae posib i chi roi drwy Paypal wrth ddilyn y linc: paypal.me/carnifalbethesda2023

Diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaol.






MODURON PANDY Cyf.

UNIPART CAR CARE CENTRE

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Wendy a John Dore, Ffordd Garneddwen, ar achlysur hapus o ddod yn daid a nain i Sophia, merch fach i Paul a'i gymar.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar.

Elwyn Jones a'r teulu, Pant Glas, wedi colli ei chwaer yng nghyfraith yng Nghonwy.

Alwenna, David, Gareth, Anna ac Alys, Braichtalog, Tregarth, yn eu profedigaeth fawr o golli mab a brawd annwyl, Selwyn Rhys Williams yn 28 mlwydd oed. 'Roedd Rhys yn ŵyr i'r diweddar Selwyn a Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas, ac yn nai i Nerys a Medwyn.

**Marw**
*John Richard Roberts*
Ar 8 Mehefin yn Ysbyty Gwynedd bu farw John Richard Roberts (John Amlwch), o Llain y Pebyll, yn 73 mlwydd oed. Tad a thad yng nghyfraith Donna a John, Derfel a Kerry, John Glyn a Mandy, a Gerallt a Dana. Roedd yn daid annwyl i Shaun, Kyra, Marc, Gwyn, Sam, Dion, Natalie, Huw, Gwawr, Rebecca, Harri a David. Roedd hefyd yn hen daid hoffus ac yn frawd a brawd yng nghyfraith agos i Eurwen a Victor Smith, Tregarth, ac yn frawd i'r diweddar Arfon. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Carmel, Llanllechid a mynwent Coetmor ar ddydd Mercher, 19 Mehefin. Y Parchedig Dyfed Roberts oedd yn gwasanaethu gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

*Edna Evans*
Yn dawel ym Mhlas Ogwen ar 22 Mehefin, bu farw Edna Evans, 14 Allt Penybryn yn 80 mlwydd oed. Priod annwyl Elwyn a mam a mam yng nghyfraith i Valmai, Anwen, Gwyndaf ac Alistair. Roedd yn nain garedig i Morgan, Reece a Megan , ac yn chwaer annwyl i Emyr a'r diweddar Eric. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 3 Gorffennaf. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

**Ysbyty**
Cofion cynnes a gwellhad buan i ti Gwyn wedi ail gyfnod yn yr ysbyty.

**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Fflur a Bryn Roberts, Garneddwen, ar yr achlysur hapus o ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol ddechrau mis Mehefin.

**Diolch i Walter a Menai**
Dymunwn fel pwyllgor *Llais Ogwan* ddiolch yn fawr i Walter a Menai Williams, Erw Las am eu cyfraniad arbennig fel aelodau o'r panel golygyddol.

Bu'r ddau'n gyfrifol fel Golygyddion y Mis am nifer helaeth o flynyddoedd, a manteisiwn ar y cyfle i fynegi ein gwerthfawrogiad o'u gwaith yn cefnogi ein papur bro yn ymarferol.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Hannah Jones, Erw Las ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf mewn plismona ac ymchwiliad troseddol ym Mhrifysgol Caer. Pob hwyl iddi hefyd yn ei gwaith newydd gyda'r Gwasanaeth Prawf. Llongyfarchiadau hefyd Hannah ar ddathlu dy 21ain ym mis Mehefin.

**Pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Edna Davies (Nen) Bryntirion ar ddathlu penblwydd arbennig ar 19eg o Orffennaf. Cofion gan y teulu i gyd.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Sarah Roberts, Lôn Newydd, wedi triniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Cynhaliwyd oedfa Undebol Yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ar Fai 12, pryd y gweinyddwyd Cymun gan ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. 'Roedd cynrychiolaeth deilwng o'n haelodau yno, ac yn sicr cawn y teimlad o gryfhau ein perthynas â'r Capeli eraill sydd yn yr Ofalaeth. Diolch o galon i'n Gweinidog am wasanaeth bendithiol dros ben, a diolch hefyd am y baned hyfryd ar derfyn yr oedfa.

Yn ystod y mis, cawsom y fraint o wrando ar genadwri'r Parchedig Mererid Mair – diolch yn fawr iddi hithau.

Nos Sul, Mai 19, cynhaliwyd gwasnaeth arbennig Cymorth Cristnogol yn Eglwys Glanogwen, pryd y cymerwyd rhan gan Carol Jones, Minnie Lewis, a Menai Williams, ynghyd ag aelodau o rai o Gapeli'r Dyffryn, o dan arweiniad y Parchedig Nerys Griffiths, a'r Parchedig Sara Roberts. Gresyn na fyddai cynulleidfa deilyngach wedi bod yno.

**Yr Ysgol Sul**
Yn ystod y mis cafwyd cyfle i ddysgu am y ffenestr arbennig sydd yn Eglwys y Bedyddwyr, Birmingham, Alabama. Lladdwyd pedwar plentyn mewn ymosodiad hiliol yno ym mis Medi 1963, gan aelodau o'r Klu Klux Klan. Pan glywodd John Petts, yr artist gwydr o Gymru, am hyn, penderfynodd ddylunio ffenestr wydr yn portreadu Iesu Grist du ei groen, er mwyn dangos ei gefnogaeth i'r eglwys a'i phobl. Gosodwyd y ffenestr yn yr eglwys ym 1964, a hyd heddiw mae'n cael ei hadnabod fel y 'Wales Window' gan aelodau'r eglwys.

Ysbrydolwyd y plant i greu patrwm o ffenestr wydr.

**Y Gymdeithas**
Ddydd Sadwrn, Mai 11eg , er bod amryw o atyniadau eraill ar y gweill yr un pryd, daeth nifer foddhaol o aelodau a ffrindiau i Fore Coffi'r Gymdeithas a gynhaliwyd yn Festri Capel Jerusalem. Cawsom orig braf yng nghwmni'n gilydd, a chyfle i ddal y fyny â'r newyddion diweddaraf dros baned a bisgeden.

Rhwng y stonin gacennau, cardiau Ceri, y Raffl, prês mynediad, a rhoddion hael, codwyd cyfanswm teilwng o £246.50 tuag at weithgareddau'r Gymdeithas.

**Gwibdaith y Gymdeithas**
Ar fore hynod o braf ym mis Mehefin, cychwynodd ugain o aelodau a ffrindiau Cymdeithas yr Eglwys Unedig ar wibdaith i Ddinbych. Cawsom amser i gael paned a chwilio am fargeinion yn Tweedmill, cyn mynd yn ein blaenau i Gaffi Dyfnog, Llanrhaeadr, i fwynhau cinio ardderchog. Cafodd pawb ei blesio gyda safon y bwyd, a'r croeso cynnes a gawsom gan y Staff.

Yn ystod y daith fer o Lanrhaeadr i Amgueddfa 'Cae Dai', ar gyffiniau tref Dinbych, gwelsom ddarn bach o Ddyffryn Clwyd ar ei orau.

Daeth cynnwys ystafelloedd yr Amgueddfa â myrdd o atgofion yn ôl i ni, blant y pumdegau, a bu trafod brwd a chwerthin iach dros y cannoedd o nwyddau a lluniau oedd yno. Mae creu arddangosfa mor helaeth wedi bod yn waith oes ac yn llafur cariad i'r perchnogion yn sicr.

Er gwaethaf rhybuddion o oedi hyd y lôn fawr, cyrraeddasom adref yn gwbl ddi-drafferth, wedi blino'n lân ond yn edrych ymlaen, os byw ac iach, at wibdaith y flwyddyn nesaf.

Diolch i bawb a fu wrthi'n gwneud y trefniadau ym mha bynnag fford.

**Cyhoeddiadau'r Sul (am 10 y bore oni nodir yn wahanol)**
Gorffennaf 14: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans
Gorffennaf 21: Y Gweinidog
Gorffennaf 28: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)

Dalier sylw: **NI** fydd oedfaon yn ystod mis Awst, ond byddwn yn cyfarfod eto ar y Suliau canlynol:

Medi 1: Y Parchedig Brian Wright
Medi 8: Y Gweinidog
Medi 15: Undebol yng Nghaeathro (2) **Cymun**
Medi 22: Y Parchedig Cledwyn Williams
Medi 29: Y Parchedig Trefor Lewis (5)

Croeso cynnes i chwi i ymuno â ni, a chofiwch am y cyfle i wrando ar y ffôn – cysylltwch â Walter Williams (01248 601 167) am fwy o wybodaeth.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl**
Enillwyr mis Mehefin:
£30 – Rhif 61 – Mrs Ann Williams, Gerlan
£25 – Rhif 23 – Ms K Williams, Gl. Ffrydlas

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl. Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau Eglwys Crist**
Pob Sul – Cymun Bendigaid am 11.00
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

Manylion cyswllt Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ac ar gael ar 07967652981.

**DYFODOL EGLWYS GLANOGWEN**
Mae lot fawr o drafodaeth wedi bod yn y gymuned am ddyfodol Eglwys Crist, Glanogwen a hoffai'r gynulleidfa sicrhau pawb nad oes yna unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud hyd yn hyn. Yn amlwg, fel nifer o sefydliadau, capeli ac eglwysi eraill, mae ein sefyllfa yn ddigon bregus a'n niferoedd yn lleihau a mae rhaid inni fod yn ymarferol a phragmataidd- tra'n cadw at ein ffydd a'n gobaith! Mae costau byw cynyddol wedi effeithio ar bawb, gan gynnwys eglwysi, a mae etifeddu adeilad hanesyddol yn fraint- ac yn faich.


Felly, yn y tymor byr, bydd ein hadeilad ar agor, ein gwasanaethau rheolaidd yn parhau a'n cynulleidfa mor weithgar ag erioed – yn gweddio dros ein cymuned, ein cymdeithas a'r cenhedloedd, am Heddwch a Chyfiawnder yn y byd. Yn y tymor hir, mae 'na fwy o gwestiynau nac atebion, a mae'n rhaid cofio mai nid adeilad sy'n diffinio Eglwys, ond ei phobl. Os hoffech gefnogi'r Eglwys- dewch ac ymunwch yn ein addoliad ar fore Mercher neu Sul. Os hoffech gyfrannu – cysylltwch â'r Parch Gareth Lloyd neu Caplan Bro, Parch Sara Roberts. Hefyd, mae cronfa Gofundme yn dal i fynd, lle mae'r gallu i gyfrannu'n uniongyrchol

# Clwb Camera Dyffryn Ogwen

## Rhaglen 2024/25

### Cefnfaes, Bethesda 7.00 (oni nodir yn wahanol)

| Dyddiad | Amser | Testun | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 25/09/24 | 7.00 | Croeso a Noson aelodau | Lluniau o wibdeithiau'r haf |
| 16/10/24 | 7.30 | Noson yng nghwmni Alan Price | Ffotograffydd natur arobryn |
| 13/11/24 | I'w gadarnhau | Dylan Arnold – "Cymru Gudd " | Bydd Dylan yn siarad am ei lyfr diweddaraf |
| 20/11/24 | 7.30 | Harry Hall – "Beyond Street Photography" | **CYFARFOD DROS ZOOM ** |
| 11/12/24 | 7.00 | Margaret Salisbury – "Dragon by the seaside" | Mwy o luniau gan un o ffotograffwyr mwyaf adnabyddus Cymru |
| 15/01/25 | 7.30 | Cystadleuaeth – "Agored" | Beirniad: Phil Chadwick |
| 12/02/25 | I'w gadarnhau | Noson yng nghwmni – Rolf Kraehenbuehl | Mae Rolf ar hyn o bryd yn cwblhau MA mewn ffotograffiaeth |
| 12/03/25 | 7.00 | Noson aelodau | Lluniau aelodau |
| 30/04/25 | 7.00 | Cyfarfod Blynyddol | |



"**DIOLCH YN FAWR** i bawb a anfonodd luniau ar gyfer calendr Llais Ogwan! Fasan ni ddim yn gallu gwneud hyn hebddo chi. Mi gawson ni dros 100 o luniau gan fwy na 25 o bobl. Bydd y dewis yn cael ei wneud yn fuan, a dylai'r calendr fod ar gael ym mis Medi. Mae'n anffodus nad ydyn ni'n gallu cynnwys llun pawb ac os dydi'ch llun chi ddim wedi'i ddewis fe allai hynny fod am un o nifer o resymau:

* efallai bod nifer fawr o luniau ar destun penodol wedi cael eu cynnig (ee eira'r gaeaf)
* efallai ei fod o leoliad sydd wedi'i gynnwys mewn rhifynnau diweddar o'r calendr
* efallai ei fod mewn fformat portread, ac nid fformat tirlun

**Diolch yn fawr i bawb eto,**



## Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 27ain o Fehefin yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol drwy Zoom.

### Datblygiad Cae Gas

Nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor fod y gwaith adeiladu ger Cae Gas wedi cael ei oedi yn annisgwyl. Yn dilyn gohebiaeth gyda Tai Gogledd Cymru, adroddwyd fod y gwaith adeiladu wedi ei ohirio gan fod yna broblemau wedi codi wrth geisio cwblhau cytundeb hefo'r cwmnïau gwasanaethu. Nid yw'r problemau yn rhai beichus, ond mae wedi bod yn broses araf iawn. Derbyniwyd cadarnhad fod y gwaith yn gobeithio ail gychwyn dim hwyrach na mis Awst. Er gwaethaf yr oedi, maent yn hyderus bydd y tai i gyd wedi eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

### Llys Dafydd

Cofiwch fod safle Llys Dafydd ar y Stryd Fawr ar agor i bawb, lleoliad gwych i gwrdd â ffrindiau ac yn y blaen. Mae'r lleoliad hefyd ar gael i'w logi ar gyfer digwyddiadau amlbwrpas. Cysylltwch â gofod@ogwen.org neu (01248) 602131, am fwy o wybodaeth.

### Cysgodfan Bws ger Pont Twr

Adroddwyd yn ein cyfarfod fod gwydr wedi'i dorri yn y cysgodfan bws newydd ger Pont Tŵr. Cytunwyd bod y Clerc yn edrych am ddyfynbrisiau ar gyfer gwydr newydd.

### Bwrdd Dehongli ger Plas Ffrancon

Mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn gweithio ar y cyd â Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau ar brosiectau i helpu trigolion Dyffryn Ogwen ymgysylltu â'u hamgylchedd a Mynyddoedd y Carneddau. Mae Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi cytuno i ariannu bwrdd dehongli i'w osod y tu allan i Ganolfan Hamdden Plas Ffrancon (ger y cae pêl droed) yn dangos amlinelliad o'r mynyddoedd gyda'u henwau. Cwmni o Bwllheli fydd yn creu'r bwrdd ei hun, a fydd wedi'i wneud o wenithfaen du caboledig. Bydd y wal i ddal y gwenithfaen yn cael ei godi gan gwmni lleol. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at weld y bwrdd dehongli yn ei le, a diolchwyd i Bartneriaeth Ogwen am drefnu.

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 25ain o Orffennaf am 19.00 yng Nghanolfan Cefnfaes.

# Y Gerlan



### Diolch

Yn dilyn y stori ar flaen Llais Ogwan mis diwethaf, hoffai Dylan Hughes ddiolch i'w deulu ac yn arbennig y plant am eu help a'u hanogaeth tra'n ymarfer a chwblhau'r daith gerdded ym mis Mai. Fysa fo ddim wedi gallu gwneud be wnaeth o heb gael tîm cryf tu ôl iddo felly diolch yn fawr iawn i Ifan, Nanw a Celt am bob dim – da chi'n sêr!

### Penblwydd hapus arbennig

Penblwydd hapus iawn i Rhiannon O'Marah Gwernydd fu'n dathlu ei phenblwydd yn 30 yn ddiweddar. Er nad ydi Rhiannon yn byw'n Gerlan bellach, adra y daeth hi i ddathlu efo teulu a ffrindiau a chael parti i'w gofio yng nghaffi Blue Sky ym Mangor. Gobeithio bod chdi wedi cael amser arbennig Rhiannon.

Un arall sydd wedi bod yn dathlu yr un penblwydd ydi Emma Huskisson, Ffordd Gerlan. Gobeithio dy fod dithau hefyd wedi mwynhau dathlu'r garreg filltir yma Emma. Penblwydd hapus iawn i ti.

### Cydymdeimlo

Gyrrwn ein cydymdeimlad at Gerallt a Dana Roberts a'r plant yn Stryd Hir gan bod Gerallt wedi colli ei dad, John Roberts (Amlwch) ar yr 8fed o Fehefin. Mae colli John yn ergyd mawr i'r teulu ac 'rydym yn cofio atoch i gyd.

### Cofion Cynhesaf

'Roedd yn ddrwg gen i glywed bod Jean Doyle, Ciltwllan yn parhau i fod yn Ysbyty Gwynedd ond yn falch o glywed ei bod yn cryfhau'n raddol. Gobeithio y byddwch yn parhau i wella Jean ac y byddwch yn cael dod adra'n fuan.

### Codi Arian at Achos Arbennig

Mae Luke Mueller, meddyg sy'n gweithio yn yr adran achosion brys yn Ysbyty Gwynedd, a symudodd i Ffordd Gerlan y llynedd, yn gofyn yn garedig os hoffai unrhyw un gyfrannu i'w godwr arian.

Ym mis Awst 2020 bu Luke mewn damwain fynydda ar ynys Skye, lle cafodd anafiadau difrifol. Roedd mewn uned gofal dwys am 10 diwrnod gydag anaf i'w ben a choes wedi torri ac nid oedd y bobl oedd yn gofalu amdano



yn gwybod sut roedd y ddamwain hon yn mynd i effeithio arno. Gwnaeth adferiad ysbrydoledig a llwyddodd i ddychwelyd i'r gwaith fel meddyg erbyn Ionawr y flwyddyn ganlynol. Mae'r diolch i gyd i'r adferiad hwn i dîm achub mynydd Skye, a dreuliodd oriau lawer gydag ychydig iawn o wybodaeth yn chwilio amdano. Ers ei adferiad mae Luke wedi bod yn awyddus iawn i ddangos ei werthfawrogiad i'r bobl achubodd ei fywyd. Y llynedd fe osododd yr her i'w hun i cwbwlhau y 3000au Cymreig, yr hyn a lwyddodd i'w wneud y mis diwethaf! Byddai unrhyw gyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n fawr, diolch! Am fwy o wybodaeth dilynwch y linc yma: https://www.justgiving.com/page/luke-mueller-1711286377130?utm_medium=fundraising&utm_content=page%2Fluke-mueller-1711286377130&utm_source=copyLink&utm_campaign=pfp-share

# YSGOL BODFEURIG

**Athletau'r Urdd**
Roeddem yn falch iawn o dîm athletau yr ysgol fu'n cystadlu yn Athletau'r Urdd yn ddiweddar. Da iawn chi!

**Ffair Haf**
Mae Ffair Haf yr ysgol bellach yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn. Cyfle i rieni, disgyblion, staff a chyn ddisgyblion ddod at ei gilydd i ddathlu diwedd blwyddyn llwyddianus arall yn yr ysgol. Cafwyd ffair wych unwaith eto gyda barbeciw, stondinau a raffl. Diolch yn fawr i'r CRhA am drefnu.




**Mabolgampau**
Eleni buom yn ffodus iawn i gael cynnal ein mabolgampau ar gae peldroed Mynydd Llandygai. Cafwyd llawer o hwyl yn rhedeg, taflu pêl, rhedeg ras rhwystrau a ras gyfnewid. Diolch i rieni a ffrindiau'r ysgol ddaeth i gefnogi a diolch yn fawr iawn i bwyllgor y tîm Peldroed am adael i ni ddefnyddio'r cae.

**Wythnos Iechyd a Lles**
Pob blwyddyn byddem yn cynnal wythnos iechyd a lles. Mae'n gyfle i roi sylw ychwanegol i iechyd a lles corfforol a meddyliol pawb yn yr ysgol. Eleni roedd amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu. Bu'r cyngor iechyd a lles yn brysur yn cysylltu gyda Tesco i gael ffrwythau a iogwrt i wneud smwthis – braf oedd eu gweld yn cael y cyfle i greu a gwerthu'r smwthis yn yr ysgol. Bu blwyddyn 5 a 6 yn brysur yn gwneud eu lefel 2 beicio gan fynd i'r pentref i ddysgu sut i feicio yn ddiogel ar y ffordd. Uchafbwynt yr wythnos oedd ein taith gerdded o amgylch Moelyci. Cerddodd pawb o flwyddyn 1 i flwyddyn 6 o amgylch Moelyci gyda'r dosbarth derbyn yn gwneud taith ychydig yn llai. Yn sicr roedd yr amrywiaeth o weithgareddau wedi bod yn fuddiol i bawb! Diolch i Tesco Bangor am eu cefnogaeth.





**Porthdinllaen**
Y tymor yma mae dosbarth Ogwen yn astudio arfordir Cymru. Penderfynwyd ar hyn yn dilyn cynnig i fod yn rhan o brosiect o'r enw Prosiect Seagrass. Mae'r cynllun yn gweithio'n galed i warchod y gwely morwellt mwyaf yng Nghymru ac felly i ffwrdd a ni i Borthdinllaen i weld y prosiect ar waith. Cawsom gyfle i archwilio'r arfordir, dysgu am hanes y porth, darganfod mwy am greaduriaid yr arfordir, cyfle i weld y bad achub yn ogystal a profiad bythgofiadwy o weld morloi yn gorwedd ar greigiau gerllaw. Diolch o galon i Amlyn ac Amel o Brosiect Seagrass am ein tywys ar y daith ac i Partneriaeth Ogwen ac Ysgol Dyffryn Ogwen am fynd a ni yno yn y bysiau mini – cawsom ddiwrnod bendigedig!



**Prosiect Siarc**
Fel rhan o'n gwaith ar arfordir Cymru daeth Jake acw o Prosiect Siarc i'n dysgu am siarcod. Cafodd pawb amser gwych yn dysgu nid yn unig am siarcod sydd i'w gweld o gwmpas arfordir Cymru ond hefyd o gwmpas y byd. Mae llawer o'r plant wedi dangos diddordeb mawr mewn siarcod yn dilyn y sgwrs ac yn awyddus i ddysgu mwy. Diolch Jake!

**Ymweliad Bethan Gwanas**
Diolch i'r awdures enwog Bethan Gwanas am ddod draw i gynnal gweithdy gyda plant blynyddoedd 4, 5 a 6. Cafodd pawb amser arbennig yn creu stori yn ei chwmni ac mae wedi ysbrydoli ambell un i fynd ati i ysgrifennu eu storïau ei hunain!

**Ymweliadau Ysgol Dyffryn Ogwen**
Diolch Ysgol Dyffryn Ogwen am groesawu disgyblion blwyddyn 5 a 6 acw yn ystod y mis diwethaf. Mae pawb wedi dychwelyd i'r ysgol yn llawn straeon ac wedi wir mwynhau y profiad.

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Bingo Bach**
Cafwyd noson hwyliog o Bingo ar 28 Mehefin gyda'r elw o £176 yn mynd tuag at Hafan Dewi Sant Ysbyty Gwynedd. Llawer o ddiolch i bawb am bob cyfraniad tuag y gwobrau, raffl a'r tombola ac am eich cefnogaeth bob mis. Cawn hoi bach rwan dros yr Haf tan 27 Medi, mwy o fanylion yn rhifyn Medi o'r Llais.

**Llongyfarchiadau**
Ar 21 Mehefin dathlodd Idwal a Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, eu Pen Blwydd Priodas 55 blwyddyn priodasol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi eich dau.

**Arddangosfa Arlunio**
Bydd Arddangosfa Arlunio yn y Ganolfan ar 22, 23 a 24 Awst o 11yb nes 3.30yp. Yn dilyn llwyddiant yr arddangosfa y llynedd penderfynodd y Grŵp Arlunio gynnal un eto eleni, mae amrywiaeth dda o luniau i'w gweld yn defnyddio sawl cyfrwng. Dowch yn llu mae croeso cynnes i chwi gyd!

**Cylch Glasinfryn**
Cafwyd pnawn difyr a gwahanol yng nghyfarfod y Cylch ar 12 Mehefin pan ddaeth Ellie Evan atom i arwain sesiwn o Yoga o'r gadair. 'Roedd amryw o'r aelodau heb wneud unrhyw fath o Yoga o'r blaen, a dim yn siwr iawn beth i ddisgwyl! Ond wedi ryw 40 munud o ymlacio a gwneud symudiadau syml o'r gadair 'roedd pawb yn cytuno eu bod wedi mwynhau y sesiwn ac yn teimlo yn braf. 'Roedd amryw yn awyddus i gynnal dosbarthiadau rheolaidd. Os oes unrhyw un a diddordeb cysylltwch â Ellie Evans 07860845723. Diolchodd Jocelyn i Ellie am bnawn distaw a thawel, gyda phawb yn mynd adref yn teimlo yn well! Marian a Carys wnaeth y baned a rhoi y raffl a enillwyd gan Barbara.

Ar 10 Gorffennaf byddwn ymweld â'r Amgueddfa ym Mhenmaenmawr. Yna bydd ysbaid dros yr haf tan 11 Medi pan ddaw Jake Davies o'r Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru atom i roi sgwrs ar "Prosiect Siarc". Cofiwch fod croeso cynnes i chwi ymuno a'r Cylch sydd yn cyfarfod yn y Ganolfan am 2yp ar yr ail dydd Mercher o'r mis.






**Arddangosfa Castell Penrhyn**
Mae Anna Pritchard, Bryn Gwredog, Waen Wen, wedi bod yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 9, Ysgol Dyffryn Ogwen i greu arddangosfa, sy'n dwyn y teitl "Ailffram io" fydd yn cael ei weld yn y Neuadd Fawr yng Nghastell Penrhyn. Mae'r gwaith yn seiliedig ar beintiadau Henry Hawkins a gafodd ei gomisiynu gan George Hay-Dawkins Pennant i ddathlu ymweliad y Dywysoges Fictoria i'r Castell yn 1832. Mae dyluniadau y disgyblion ar grys chwarelwr maent wedi ei greu, sy'n cynnwys elfennau o'r peintiadau. Mae lein ddillad yn ymddangos ar y dyluniad fel arwyddocad o rôl merched yn ystod y cyfnod. 'Roedd tân gwyllt wedi ei danio yn ystod yr ymweliad a mae hwnnw i'w weld yn amlwg yn y dyluniad. Maent wedi creu dyluniadau o'r chwarael fel ag y mae heddiw hefyd gan gynnwys gwisg mae'r dynion yn gwisgo, heb anghofio'r wifren wib! Mae'r Arddangosfa sydd yn agor ar 4 Gorffennaf yn swnio yn gyffrous iawn a 'rwyn siwr fod y disgyblion wedi cael hwyl fawr yn dysgu am hanes a thecstiliau mewn ffordd ddifyr a ddiddorol iawn.

# Gair neu ddau John Pritchard

## FATHER TED

Roedd helyntion y Parchg J. S. Jones yn gyfarwydd i gynulleidfa *Teulu'r Mans* ar S4C ers saith mlynedd erbyn i gymeriadau brith Craggy Island gael eu gweld gyntaf yn *Father Ted*. Dyma ddwy gyfres ddeifiol eu dychan o'r gwagedd a'r rhagrith a welai eu hawduron ym mywydau gweinidog Anghydffurfiol Cymraeg o 60au'r ganrif ddiwethaf ac offeiriad Pabyddol Gwyddelig o ddiwedd y ganrif. Dwy gyfres hynod o ddoniol a phoblogaidd a gododd wrychyn fwy nag un na fedrai werthfawrogi'r dychan a'r tynnu coes. Gresyn na threfnodd rhywun gynhadledd ecwmenaidd a fyddai wedi dod â'r hen J.S. a'r Tad Ted Crilly at ei gilydd! Fedraf fi ond dychmygu'r llanast a'r sefyllfaoedd gwirion bost a fyddai wedi deillio o hynny.

Bydd y cyfarwydd yn cofio'r cyfeiriadau mynych yn *Father Ted* at y ffaith fod Crilly wedi ei anfon i Craggy Island fel cosb am fisdimanars ariannol. Yr awgrym oedd iddo wario arian elusen ar daith bersonol i Las Vegas. Ond gwadu hynny a wnâi o bob gafael, gan fynnu: *'The money was only resting in my account'*. Yn amlwg, roedd yr arian ar goll; ac ar Craggy Island y byddai raid i Ted aros hyd nes y byddai pob ceiniog wedi ei had-dalu. A dal yn ddyledwr oedd o pan ddaeth y gyfres i ben wedi marwolaeth sydyn ac annisgwyl yr actor Dermot Morgan a'i portreadai.

Credwch neu beidio, daeth Ted Crilly i'm meddwl y dydd o'r blaen wrth i mi ddarllen yr adnod hon o bennod gyntaf Llythyr Paul at y Rhufeiniaid: 'Groegiaid a barbariaid, doethion ac annoethion – yr wyf dan rwymedigaeth iddynt oll' (Rhuf. 1:14). Neu, yng nghyfieithiad William Morgan, 'Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid …' Dweud wna Paul ei fod yn ddyledwr (neu ei fod mewn dyled) i bobl ddieithr o genhedloedd a diwylliannau eraill. I bob pwrpas, mae yn ei ddyled i bawb arall: pwy bynnag ydyn nhw, ble bynnag y maen nhw, beth bynnag eu cefndir, a beth bynnag eu hagwedd ato fo.

Ond pam fod Paul yn dweud hynny? A beth sydd a wnelo hyn â'r offeiriad dychmygol Ted Crilly? Dim byd o gwbl ar un wedd gan nad ydi Paul yn sôn am ddyled ariannol o gwbl. Sôn y mae yn hytrach am y ddyled sydd arno i rannu'r Efengyl. Mae honno – y newyddion da am Iesu Grist – wedi ei hymddiried i Paul gan Dduw er mwyn iddo fo ei throsglwyddo i eraill. Ac mae'r un peth yn wir amdanom ninnau os daethom i gredu'r Efengyl: mae'r gair am Iesu Grist wedi ei ymddiried i ni er mwyn i ninnau ei rannu ag eraill.

Dweud wna'r adnod hon ei bod yn ofynnol i ni gyhoeddi'r Efengyl. Nid rhywbeth yr ydym yn rhydd i'w wneud neu i beidio â'i wneud ydyw. Mae rheidrwydd arnom i wneud hyn. Fel dywed Paul, 'Dyledwr ydwyf'; 'yr wyf dan rwymedigaeth'. Oes, mae ar Gristnogion ddyled i bobl eraill: a hyd nes y byddwn yn cyflwyno'r Efengyl iddyn nhw mae'r ddyled yn aros. Trysor sy'n dod â bywyd a gobaith yw'r Efengyl. Ond os methwn, neu os gwrthodwn â'i rhannu, onid oes beryg i ni fod fel y Tad Ted Crilly, â'r trysor hwnnw *'only resting in my account'*?

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts

(Roedd y ddau ddarn canlynol i fod i ymddangos yn rhifyn Mehefin. Ymddiheurwn na lwyddwyd i wneud hynny – Gol.)

### Canu ers 50 mlynedd



**(Cyn anfon y darn isod i'r golygydd daeth y newydd trist am farwolaeth Ann, gwraig Dafydd, a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.)**
Yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar Nos Lun 13 Mai, y weithred gyntaf oedd cyflwyno rhodd gan y Cadeirydd ar ran y côr i Dafydd Pritchard Glan y Môr, Talybont ar ddathlu 50 mlynedd o aelodaeth yng Nghôr y Penrhyn. Mae Dafydd yn ymuno â chriw dethol o aelodau eraill sydd wedi canu efo Côr y Penrhyn ers blynyddoedd cynnar y 70au. Llongyfarchiadau iddo.



### Newidiadau. Yr awenau'n newid dwylo

Wyn Roberts, sydd newydd gwblhau dwy flynedd fel cadeirydd y côr.

### Pethau cyffrous

Yn ei anerchiad dywedodd Wyn, "Dwi wedi gweld sawl peth eitha' cyffrous wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd y bûm i'n gadeirydd." Nododd y noson yng nghwmni Nigel Owens, y dyfarnwr rygbi. rhyngwladol enwog; y ddau drip i Rosygilwen ger Aberteifi ac ymweliad llwyddiannus iawn â Huddersfield.

Aeth ymlaen i drafod rhai o'r amcanion eraill a fu'n flaenllaw ganddo fel rhoi cyllid y côr ar sylfeini diogel a cheisio denu aelodau newydd.

I derfynu dwedodd Wyn "Diolch i'r holl swyddogion ac i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith tra bues i'n gadeirydd a dwi'n gobeithio gweld y côr yn mynd o nerth i nerth."

### Cadeirydd newydd



Cymerodd Gareth Williams, Llanfairfechan le Wyn fel cadeirydd am y ddwy flynedd nesaf. Wrth edrych ymlaen apeliodd Gareth am yr un gefnogaeth iddo fo ac i bwyllgor y côr â'r hyn a roddwyd I Wyn.

### Trysorydd

Mae Mr Maldwyn Pritchard yn parhau yn ei swydd fel trysorydd a diolchwyd iddo am ei waith ers sawl blwyddyn bellach.

### Cofio'r Cau Allan yn Chwarel Dinorwig

Ar Ddydd Sul 23 Mehefin cyfarfu tyrfa fawr o bobl ar lan Llyn Padarn yn Llanberis i gofio am y cau allan yn Chwarel Fawr Dinorwig yn 1874. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i goffáu chwarelwyr a laddwyd yn chwareli Gwynedd wrth ddilyn eu galwedigaeth. Nodwyd y dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod cofeb deilwng yn cael ei gosod mewn lle addas i gofio aberth y rhai a fu farw wrth eu gwaith yn cyfoethogi'r perchnogion. At hynny, tynnwyd sylw at y ffaith fod enwau Saesneg "hurt ac amharchus" yn cael eu rhoi gan ddringwyr estron ar bonciau a sinciau chwarel Dinorwig, ac mae'n hen bryd i Gyngor Gwynedd gymryd camau pendant i rwystro hynny.

### Canu, Darllen a Chofio

Cymerodd Côr y Penrhyn ran amlwg yn y cofio trwy ganu caneuon Cymraeg addas a thrwy gyd ganu gyda'r gynulleidfa rai emynau o gyfnod y cloi i gyfeiliant Seindorf Deiniolen. Ymhlith y cyfranwyr eraill ymddangosodd Hogia'r Bonc yn canu 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' a 'Chwarelwr' ydw i a Chôr y Penrhyn yn ymuno â nhw yn y cytgan.

Artistiaid eraill a ymddangosodd ar y pnawn braf o haf i ganu ac i ddarllen darnau o gerddi a llenyddiaeth yn ymwneud â'r diwydiant oedd Arfon Wyn o'r Moniars, Richard Llwyd Jones o Fethel ac Anita Butler, 'nawr o Lanfairfechan ond o Lanberis yn wreiddiol.

### Band Black Dyke yn Venue Cymru 13 Gorffennaf

Yn dilyn cyngerdd Llanfairfechan, bu cyngerdd yn Venue Cymru, Llandudno yng nghwmni Band Pres byd-enwog Black Dyke o Swydd Efrog. Dyma'r trydydd tro i'r côr wahodd y band i berfformio mewn cyngerdd gyda ni yn Venue Cymru.

Ceir adroddiad am y cyngerdd hwnnw yn rhifyn Medi o'r Llais.

## Côr Perth a Chôr y Penrhyn yn Eglwys Llanfairfechan



Wedi'r holl ddiwydrwydd yn paratoi am ymweliad Côr y Penrhyn â'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Carlow, Iwerddon bu cyfnod eithriadol o brysur arall yn nyddiadur y côr.

Bu côr meibion o ddinas Perth Awstralia yn cyd-berfformio â ni yn Eglwys St.Mair a Christ, Llanfairfechan ar 5 Gorffennaf 2024. Mae gan y côr hwn gysylltiadau agos â'r traddodiad Cymreig o ganu pedwar llais mewn harmoni. Yn wir maen nhw'n canu sawl darn Cymraeg fel ***Gwinllan a Roddwyd, Llwyn Onn ac Anfonaf Angel.***

Diddanwyd cynulleidfa fawr a brwd gan y ddau gôr a phan ganodd y côr o Awstralia ganeuon Cymraeg roedd y gymeradwyaeth yn uchel a hir. Côr o ychydig dros 30 ymddangosodd yn Llanfair a phwysai eu rhaglen yn benodol ar ddarnau cyfarwydd allan o sioeau cerdd enwog a chyfarwydd.

Mae'r côr ar daith yng ngogledd Cymru a Chaer gyda chwe chyngerdd i gyd yn ystod yr haf.




**Cyflwyno Cloc Llechen**
Ar ddiwedd y cyngerdd cyflwynwyd cloc llechen a wnaed gan Alun Davies i'r côr o Awstralia.

## SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

## CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn

**07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**



**Cegin Karen**

Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael

@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com



1969

**M.HUGHES A'I FAB**

**CONTRACTWYR TOI**

**Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633**
**☎ (symudol) 07702 583765**
**garribryn@aol.com**

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.



ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED

**A.G.L.**
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909


# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## NEUADD OGWEN

**ARA DEG 2024**

**22-24/8/24**
**Tocynnau Dydd a Penwythnos**

**DYDD IAU 22/8. 7PM**
DAS KOOLIES, GROUP LISTENING

**DYDD GWENER 23/8. 7PM**
BILL RYDER-JONES, GEORGIA RUTH

**DYDD SADWRN 24/8**
10am FFAIR RECORDIAU a mwy

11am ish Ffilm: PANDORA'S BOX
(Trac sain byw Pat ac Alan)

3pm - 7pm ish STRAWBERRY GUY
a cefnogaeth @ Capel Jerusalem

7pm GRUFF RHYS, FFLAPOGRAM, PAT MORGAN & ALAN HOLMES

## CANOLFAN CEFNFAES

**Gyrfa Chwist**

Gorffennaf 23 a 30
Medi 10 a 24
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## CERBYDAU DYFFRYN CAREDIG A PARTNERIAETH OGWEN AR GAEL I'W LLOGI,

yn arbennig dros gyfnod gwyliau haf yr ysgolion rhwng 20/07/24 - 30/08/24.

Ar gael bydd Bws Ogwen y bws trydan cymuedol 16 sedd a 9 sedd neu Efan ein cerbyd trydan i 6 person EMPV sydd yn addas i gadair olwyn.

Y cerbydau ar gael i'w llogi gyda gyrrwyr.

Prisiau llogi yn amrywiol yn ddibynnol ar filltiroedd ac amser.

Am rhagor o wybodaeth neu i archebu plis cysylltwch â cludiant@ogwen.org neu ffoniwch 07394906036

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Medi 16 a 30**

Croeso cynnes i bawb

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

## Dyddiadur Boreau Coffi

### 2024

**28 Medi** – Clwb Gorffwysfan – Festri Jerusalem.



### Pwysig

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

# Ambell Air ac Ymdrodd

Y tro diwethaf, rhoddwyd sylw i '**lybeindian**'/'**lybeindio**', hynny ydy gafael yn rhywun arall i'w gynnal, fel petae rhywun wedi blino neu'n rhy ddiog i'w gynnal ei hun. Dw i wedi cael ystyr arall i'r gair. Mae o'n medru golygu gweithio'n egnïol ac ymgodymu efo gorchwyl caled, ac un o eiriau'r chwarelwyr wrth eu gwaith.

**sbydu.** Dyma ddwedwn ni am wagio – gwagio dŵr o rywbeth yn bennaf. Daw o'r gair 'dihysbyddu' a 'disbyddu'. Pan fyddai hogiau'n troi'r afon er mwyn sgota dwylo, roedden nhw'n sbydu'r pyllau, hynny ydy cael y dŵr ohonyn nhw. Mae'r gair yn cael ei ddefnyddio hefyd yn gyffredinol – "Pan waeddodd rhywun fod 'na dân, ac roedd y lle wedi'i sbydu mewn chwinciad."
**nialwch.** O 'anialwch' y daw hwn, sef diffaethwch, ac rydan ni'n ei ddefnyddio fo i olygu 'dim byd o werth', sef llanast a phethau di-werth – "Mae hi'n hen bryd iti glirio'r sied 'na. Does 'na'm byd ond nialwch yna."
**trugareddau / trugareddau'r Iôr.** O ran ystyr, dydy hwn ddim yn annhebyg i 'nialwch'. Rhyw bethau di-werth wedi hel ac yn tueddu i lenwi stafell – "Ew, mae 'na drugaedda 'ma."
**cena.** 'Cenau' ydy ci, blaidd, arth, llwynog neu lew ifanc, ac mae o'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio hogyn neu ddyn annymunol iawn – "Hen gena ydy o."
**cnawas.** 'Cenawes' ydy'r gair hwn, sef gast, bleiddes, arthes, llwynoges neu lewes ifanc, ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio hogan neu ddynes annifyr, gas: "Hen gnawas ydy hi."
**ar y fyny.** Ystyr yr ymadrodd yma ydy 'mewn hwyliau da' neu 'yr ysbryd yn uchel' – "Maen nhw ar i fyny ar ôl clywed y newyddion da."
**pwyllgor mochyn.** Sut fath o bwyllgor oedd hwn? Wel, un budur, mae'n debyg, sef criw yn cwarfod yn slei bach cyn neu ar ôl pwyllgor swyddogol i drefnu sut i wneud yn siŵr fod pethau'n mynd eu ffordd nhw. Mi glywais fod yr ymadrodd yn dod o gyfnod y Streic Fawr.
**lapio fel nionyn.** Gwisgo llawer o ddillad rhag oerni, hynny ydy rhoi dilledyn ar ben dilledyn fel haenau nionyn.
**rhoi pig i mewn.** Ymyrryd a busnesu mae hwn yn ei olygu; mynnu cael gair i mewn – "I be' o'dd isio iddo fo roi 'i big i mewn? Do'dd gyno fo ddim busnes i 'neud hynny."
**stwffio.** Mae ystyr hwn yn debyg i 'ymyrryd' drwy geisio cael sylw mewn cwmni neu i ennill y blaen ar bobol eraill – "Mae hi'n un arw am stwffio."
**hewian.** Ystyr hwn ydy swnian a chwyno – "Dydi hi'n gneud dim byd ond hewian!"
**andros.** Y gair sy'n groes i 'gras' ydi hwn, ac mae o'n golygu 'diafol', 'drygioni', 'melltith' a 'gwylltineb'. Yn gyffredinol, 'gwylltineb' mae o'n ei gyfleu – "Fuo 'na andros o le 'na ar ôl iddyn nhw ddallt nad oeddwn nhw ddim wedi ennill y pres wedi'r cwbwl."
**landar.** Dyma'r enw, yntê, ar y cafn dŵr sydd ar hyd fargod adeilad. '*Roof-gutter*' ydy'r enw arno fo yn Saesneg, ond mae enw arall arno yn yr iaith fain, sef '*launder*', ac o hwnnw y daeth yr enw Cymraeg.
**misdimanars**. Daw hwn o'r gair Saesneg *misdemeanours* ac yn llythrennol yn golygu camymddygiad gyda'r gair *demeanour* yn golygu ymddygiad. Onid ydy'r gair 'misdimanars' mor Gymreig i'r glust. Efallai ein bod hefyd yn ei gysylltu efo ymddygiad nad ydyw'r gweithredoedd mor ddifrifol a chamymddygiad eithafol
**lliw ei din.** "Welais i ddim o lliw 'i din o ar ôl i mi roi menthyg prês iddo." Hynny ydy doedd na ddim golwg o'r person o gwbl, fel petai yn cadw o olwg rhywun ar bwrpas. Diolch i' cyfrannwr am ddod a'r ymadrodd i'm sylw.
Yn wir, a gobeithio yma na fyddwch yn meddwl fy mod yn ddichwaeth, dechreuais feddwl am lawero ymadroddio eraill yn defnyddio'r rhan arbennig ymao'r corff.
**blocyn tin.** dyna'r enw ar y stôl fechan ddefnyddiwyd gan y chwarelwr er mwyn eistedd arni tra'n hollti'r llechen
**wysg ei din.** gall hyn ddisgrifio baban yn symud cyn cropian neu gerdded, neu hefyd rhywun yn symud i rywle yn anniddig, neu i rywle nad ydio eisiau mynd.
**tindroi.** "Dos yn dy flaen yn lle tindroi yn fan yna" sef sefyllian yn gwneud dim o bwys yn hytrach na cychwyn i rywle, neu i wneud rhywbeth.
Gallwn feddwl am lawer mwy, ond nid i'r golofn hon efallai, ac fe wyddom i gyd yr ateb a gawn pan ofynnwn " Lle mae.....?" sy'n ymwneud â rhyw Ifan Saer.


Cawn seibiant y mis nesaf, ond cofiwch gyfrannu erbyn mis Medi. Edrychaf ymlaen. Cysylltwch â mi :- Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

## Arddangosfa Dathlu Hanner Canmlwyddiant Llais Ogwan 1974-2024

Ym mis Hydref eleni, bydd Llais Ogwan yn dathlu hanner can mlynedd ers cyhoeddi'r rhifyn cyntaf o'n papur bro ym mis Hydref 1974 – y papur bro cyntaf yma yn y gogledd. I ddathlu'r achlysur arbennig hwn, cynhelir arddangosfa o ôl-rifynnau Llais Ogwan dros yr hanner can mlynedd diwethaf yn Neuadd Ogwen rhwng 10.00 – 4.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 22ain, hyd at ddydd Sadwrn, Hydref 26ain 2024.

Sefydlwyd y papur gyda'r amcanion canlynol: i hybu darllen Cymraeg yn Nyffryn Ogwen a'r cylch trwy gynhyrchu misolyn uniaith Gymraeg amhleidiol.
i feithrin ysgrifenwyr yn yr iaith Gymraeg.
i hyrwyddo brogarwch ac atgyfnerthu'r ymdeimlad o fod yn gymuned Gymraeg.

Bydd paned ar gael yn Neuadd Ogwen i bobl fydd yn ymweld â'r arddangosfa i weld hen luniau a hen rifynnau o'r Llais, a hel atgofion am rai o'r digwyddiadau yn y Dyffryn dros y cyfnod hwn. Byddwn hefyd yn gwahodd ysgolion y Dyffryn i drefnu ymweliad â'r Arddangosfa.
Edrychwn ymlaen at weld ein holl ddarllenwyr a phawb sydd wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal ein papur bro dros y 50 mlynedd Diwethaf.
Nodwch yr achlysur yn eich dyddiadur.



# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Penblwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau, a dymuniadau da am iechyd gwell i Cora, Melin Cochwillan, a ddathlodd benblwydd arbenng ar y 24 o Fehefin.

Dioddefodd fisoedd maith o boen cyn y driniaeth ar ei phenglin a bu'n anghyfforddus am hir wedyn, ond erbyn hyn mae'r rhôd wedi troi a mae hi'n gallu mynd allan a mwynhau cwmni ei theulu a'i ffrindiau.

Megis cychwyn ar y daith mae Billy, 34 Cae Gwigin, a ddathlodd ei benblwydd yn 21 oed yn ystod mis Mehefin. Pob bendith iti Billy, a dymuniadau da i'r dyfodol.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Mark a Bethan Kendrick, 4 Lôn Ddŵr, ar ddod yn nain a thaid am yr eil-dro. Ar Fehefin 17eg, ganwyd hogyn bach,Theo, i'w mab hynaf Siôn a Natalie yn y Rhyl. Mae ei hen-nain, Rita (Post), wrth ei bodd yn cael babi arall yn y teulu. Mae un peth yn sicr, 'fydd y rhieni byth yn gorfod prynu cwilt i roi ar wely'r un o'r gor-wyrion. Bydd Nain Rita yn gofalu am hynny.

**Damwain**
Mae Anna, 21 Cae Gwigin, wedi torri ei braich tra'n chwaraeyn yr ardd. Dyna hanes plant erioed, ond mae plastar yn gloffrwm i blentyn bach. Mi gei'i thynnu hi ymhen ychydig, Anna, iti a Nel gael chwarae efo'ch gilydd drwy wyliau'r Haf, ond pwyll biau hi wrth ddringo, cofia!

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Gorffennaf 21: I'w gyhoeddi.
Gorffennaf 28: Parchg. Anna Jane Evans.
Awst: Dim Oedfaon
Medi 01: Parchg. Dafydd Job.
Medi 08: Parchg. Dewi T. Morris.
Medi 15: Parchg. Ddr. Geraint Tudur.
Croeso cynnes i bawb.

**Te Mefus**
Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ein Te Mefus ar nos Lun, 24 Mefefin. Gwnaed elw ardderchog o £834.

## Pencampwr Prydain

Fe gofiwch inni sôn eisoes am ddawn paffio Mitchel, 70 Bro Emrys, yn ennill Pencampwriaeth Cymru am y trydydd tro yn olynnol.Yn dynn ar sodlau'r gamp honno, fel aelod o sgwad Cymru, enillodd y Fedal Aur ym Mhencampwriaeth Prydain a gynhaliwyd y mis diwethaf yng Nghaerdydd. Ni fu Mitchel fawr o dro'n ennill ei ornest yn erbyn Pencampwr dair gwaith Lloegr, cyn cael ymadael â'i wrthwynebydd o'r Alban, hwnnw hefyd wedi ennill Pencampwriaeth ei wlad dair gwaith, mewn llai na 40 eiliad.

Mitchel, rwyt ti wedi rhoi pentref bach Talybont ar fap Prydain. Dydw i ddim yn amau y byddwn ar fap y byd gen ti ryw ddiwrnod.




## Eglwys St Cross

**Cydymdeimlad**
Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth, tua diwedd Mehefin, Ann Pritchard, Bryn y Môr, Gatehouse, Tal-y-bont ('Glan Môr Isaf' gynt), yng Nghartref Nyrsio Bryn Marl, Cyffordd Llandudno, lle cafodd ofal gwych dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd iechyd Ann wedi bod yn gwaethygu'n gynyddol dros nifer o flynyddoedd, yn dioddef o'r cyflwr dirywiol PSP – Progressive Supranuclear Palsy. Tan ei salwch, roedd Ann yn aelod ffyddlon a gweithgar iawn o'n cynulleidfa yn St Cross, ac rydym wedi ei cholli yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn ei chofio gyda chariad a diolchgarwch. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at David a'r teulu yn eu galar, ac ar ôl y cyfnod mwyaf anodd a phryderus sydd wedi mynd heibio, gweddïwn y cânt ryddhad o wybod bod Ann bellach mewn heddwch.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Ann yn Eglwys St Cross, Tal-y-bont, ar 11eg Gorffennaf, a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent yr eglwys.

**Gwasanaethau**
Mae eglwys St Cross ac eglwys St Tegai yn dal i gynnal gwasanaethau bob yn ail Sul am 11 o'r gloch: Sul 1af a'r 3ydd Sul yn y mis – St Cross; 2il a'r 4ydd Sul – St Tegai.

**Bore Coffi**
Mae'r Bore Coffi misol yn yr Ysgoldy, ar y bore Mawrth cyntaf yn y mis, yn mynd o nerth i nerth. Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth parhaol ac yn mwynhau cwmni'r gyfeillion sy'n dod at eu gilydd. Bydd yr un nesaf ar Awst 6ed.


Am fanylion pellach neu i holi am Ymweliadau Bugeiliol, Cymun Cartref, Bedydd, Priodasau, Angladdau neu Gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd GarethLloyd@cinw.org.uk 01248 361521 neu Warden Eglwys St Cross, Catrin Hobson 07881 802882



Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS





# CHWILAIR

## LLYNNOEDD GWYNEDD



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | M | A | R | C | H | L | Y | N | M | A | W | R | C | T | W | F | H | R |
| I | E | J | L | C | M | B | V | A | B | H | X | J | U | R | E | I | S | V | S |
| I | H | E | I | M | G | V | H | N | M | D | W | H | U | O | G | Z | M | X | V |
| D | A | D | D | N | A | P | A | A | C | U | Q | U | S | E | I | O | F | R | P |
| W | Y | Q | Z | G | R | H | C | F | U | E | M | W | N | S | D | O | Y | R | I |
| A | A | S | Z | U | T | S | F | O | D | X | L | U | P | O | W | R | H | C | Q |
| L | H | W | E | H | O | Y | A | N | E | E | G | Y | E | R | O | M | H | E | P |
| T | T | C | B | B | C | U | U | W | J | P | L | T | N | M | I | V | V | D | C |
| B | B | F | R | F | N | O | G | J | G | V | I | I | R | R | X | I | M | H | T |
| T | O | S | K | O | E | P | W | R | C | Y | M | K | C | B | O | R | C | X | V |
| R | Y | H | S | T | H | M | R | E | F | Y | N | J | D | Z | H | B | C | W | O |
| S | C | R | A | I | C | X | N | I | L | X | J | O | J | M | B | W | T | E | X |
| M | D | X | K | F | R | U | P | C | Q | Y | O | I | N | L | F | E | R | Z | Q |
| R | O | C | T | D | A | G | W | S | S | L | Z | E | B | N | E | A | J | K | J |
| C | L | N | N | L | W | R | V | O | I | G | J | P | W | P | Y | G | S | O | W |
| J | J | Y | Q | U | Y | L | F | S | R | V | T | X | E | U | G | F | H | S | L |
| Z | E | L | A | F | D | X | I | W | E | T | Z | H | K | V | A | G | F | B | N |
| K | A | U | D | S | I | K | O | G | P | D | H | B | S | I | U | R | O | X | A |
| G | X | D | G | W | Y | N | A | N | T | S | T | W | L | A | N | R | A | E | E |
| K | K | D | A | N | T | O | G | W | B | M | B | J | R | F | U | N | K | B | Z |

Yn y Chwilair mis yma MAE DEUDDEG LLYN i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 28 Awst. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**


Mae fy niolch yn fawr iawn y mis yma i Emrys Griffiths, Rhosgadfan am awgrymu'r testun ar gyfer y Chwilair. Nid oes cyn gymaint o bwysau arnaf i ddod o hyd i destun wrth dderbyn awgrymiadau ar gyfer y Chwilair.

Llynoedd Gwynedd sydd wedi ei baratoi ar eich cyfer y mis yma. Nid wyf wedi cynnwys y gair LLYN o flaen yr enw, ond cofiwch mae enwau rhai o'r llynnoedd yn cynnwys dau air.

**Dyma atebion Chwilair Mehefin:-** Bronwen; Buwch; Ceffyl; Draenog; Gafr; Llwynog; Llygoden Fawr; Maharan; Mochyn; Tarw; Twrch daear; Wiwer Goch.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Doris Shaw, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las.

**Yr Enillydd oedd:-** Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.




LLAIS OGWAN 23

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Ysbyty**

Da yw deall fod Gareth Hughes, Manod, Llwynbleddyn yn gwella wedi triniaeth llawfeddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar. daliwch i wella Gareth.

**Cydymdeimlad**

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Caroline Griffiths, 15, Bron Bethel a hithau'n 72 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad at Alan, y plant, Mandy, Ronald, Gerallt a William, a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel ar 2 Gorffennaf. Ar 8ed Mehefin derbyniwyd newyddion trist am farwolaeth Adrian Wlliams. Er iddo fyw yn Nhalybont a Llandygai am nifer o flynyddoedd, hogyn Rachub oedd Adrian gyda diddordeb mawr yn nigwyddiadau ac yn nhrigolion yr ardal. Wynebodd heriau bywyd gyda dewrder mawr. Anfonwn ein cydymdeimlad at Gwawr ag Euryn, Gwen a Sheila a Maud, ei gyfaill triw, a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor a thystiodd y dorf niferus a oedd yn bresennol yno i'w boblogrwydd fel cymwynaswr, parod ei gyngor a chyfaill i lawer. Bydd bwlch ar ei ôl yn y gymuned a gedy fwlch enfawr ym mysg ei deulu.

Un arall o hogia Rachub a gollwyd ym mis Mehefin oedd John Richard Roberts. Wedi symud i fyw i Fethesda ers blynyddoedd deuai ar ei hald am dro i ymweld a chyfeillion a theulu yn y pentref. Cofir amdano fel un o hogia Lon Groes. Bu'r angladd yng Nghapel Carmel ar 19 Fehefin lle cafodd aelodau o'r teulu y cyfle i hel atgofion amdano. Anfonwn ninnau ein cydymdeimlad at y teulu yn eu profedigaeth lem.

**Cofion**

Nid yw Mr Kevin Roberts, Hen Aelwyd, Bethesda wedi bod yn dda yn ddiweddar ac rydym ni'n anfon ein dymuniadau da ato gan obeithio y bydd yn gwella yn fuan. Cafodd Mr Gwilym Evans, Beaumaris, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ystod y mis. Mae o wedi cael dod adref ac yn gwella o dipyn i beth. Dymuniadau gorau iddo yntau. Rydan ni'n anfon ein cofion hefyd at Rhian a Gwyn Roberts, Rhes Buddug, Bethesda ac at ein haelodau sy'n aros yng nghartref Plas Ogwen sef Mrs Betty Jones, Mrs Glenys Edwards a Mrs Valerie Thomas. Mae Miss Deila Griffith yng Nghartref Nyrsio Plas Marl, Cyffordd Llandudno. Cofion at aelodau sydd heb fod yn dda ac sy'n aros yn eu cartrefi ar hyn o bryd.

## Capel Carmel

**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur – Trip i lan y môr**

Ar fore Sul braf ym mis Mehefin, mi gawsom ni fynd am dro i lan y môr yn Llanfairfechan. Mi gawsom ni fynd ar un o Fysys Rhiwlas gyda Mr Derfel Owens ei hun yn gyrru'r bws. Wedi cyrraedd y maes parcio wrth y cob, mi aethom ni i gyd i gerdded heibio'r llyn ac yn ein blaenau wedyn nes i ni gyrraedd gwarchodfa natur Glan Môr Elias a mynd rownd mewn cylch i ddod yn ôl ar yr un llwybr yn ein holau. Roedd honno'n daith o ryw dair milltir ac roeddem ni'n sylwi ar y bywyd gwyllt a'r golygfeydd hardd o'n cwmpas. Mi gafodd y plant sbort yn chwarae hefo pêl ac yn chwarae yn y cae bach ar y siglen a'r slefren. Cyn i ni droi am adref, mi wnaethom ni fwynhau picnic blasus iawn. Roedd gan bawb fag papur o fwyd a oedd wedi ei baratoi gan Mrs Karen Ashton, Erw Las. Diolch iddi hi am baratoi bwyd mor neis. Roedd pawb ohonom ni wedi mwynhau'r bore o hwyl a sbri.



Y plant yn sefyll ar ben y wal a Thraeth Lafan yn y cefndir.

**Gwasanaeth y Plant a'r Bobl Ifanc**

Roedd y gwasanaeth arbennig ar 23 o fis Mehefin yng nghwmni'r ifanc a oedd yn cynnwys darlleniadau o'r Beibl, gweddïau, unawdau canu, unawd piano, emynau ac adroddiadau llefaru. Roedd pump o'r genethod hynaf wedi dysgu darnau ar eu recorders a oedd yn cynnwys emynau ac alawon gwerin. Roedd Elsi, Efa, Ela, Nel a Non yn cael eu noddi gan aelodau a chyfeillion Carmel.

Diolch i Llinos Roberts sy'n swyddog gyda Chymorth Cristnogol am ddod atom ni i'r gwasanaeth. Cawsom ychydig o hanes ymgyrch Ffynhonnau Byw sy'n helpu pobl dlawd yng ngwald Colombia dan nawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Roedd yr arian a gasglwyd i gyd yn cael ei roi at Ffynhonnau Byw. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc. Ar ôl yr oedfa, mi gawsom ni baned a chacen yn yr ysgoldy.



Y genod a'u recordersw









**Capel Carmel**

*Gwasanaethau*

*(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*

**Gorffennaf 21**: Oedfa.
**Awst**: Dim gwasanaethau.
**Medi 01**: Parchg. Hugh Pritchard.
**Medi 08**: Parchg. G. Jones.
**Medi 15**: Parchg. Iwan Ll. Jones.

CROESO CYNNES I BAWB

# YSGOL LLANLLECHID

**Buddugwyr Criced**
Llongyfarchiadau i dîm Criced Blwyddyn 3 a 4 ar eu llwyddiant yn nhwrnament criced yr Urdd. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant! Da iawn tîm y plant hynaf yn eu twrnament hwy hefyd!

**Celf a Chrefft yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ddod i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd:

| Enw | Cystadleuaeth | Safle |
|---|---|---|
| Cian Amos Evans-Hughes Thomas | Uwchgylchu Bl 5 a 6 | 3ydd |
| Efa Rhos Hughes | Argraffu Bl 2 ac Iau | 3ydd |
| Eban, Efa Rhos ac Eos Hughes | Creu Tecstiliau Bl 6 ac Iau | 2il |

Diolch i Mrs Jen Morris am gynnal rhai sesiynau Celf hefo'n disgyblion ac i Miss Rhiannon am gynnal Clwb Celf ar ôl ysgol.

**Ffair Haf Ysgol Llanllechid**
Llawer iawn o ddiolch i'r Cyfeillion am yr holl waith yn trefnu Ffair benigamp i ni ar ddiwedd mis Mehefin! Diolch yn arbennig i'r pwyllgor bach ffyddlon, o dan arweiniad y Cadeirydd, Mrs Ceri Evans am fod wrthi mor ddiwyd yn y cefndir, yn sicrhau noson werth chweil i ni. Diolch hefyd i'n staff arbennig a'n disgyblion am drefnu'r holl gemau! Roedd prysurdeb mawr yng nghegin yr ysgol, a phawb wrthi fell lladd nadroedd yn ceisio dod i ben! Roedd hi mor braf gweld y gymuned yn dod ynghyd fel hyn, a chael cyfle i gael sgwrs hefo hwn a'r llall, a chwarae teg i rai o'n cyn-ddisgyblion am ddod yn ôl i gynnig eu help! Diolch hefyd i fusnesau lleol am fod mor barod i'n cefnogi – gwerthfarwogir y cyfan oll. Llond trol o ddiolch i bawb!





**Côr Cerdd Dant**
Llongyfarchiadau i'r côr Cerdd Dant a fu'n canu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod. Roedd hi'n pistyllio bwrw glaw, ac wedi i ni i gyd fod yn ymlwybro drwy'r mwd, cafwyd perfformiad bendigedig gan ein plantos, a phob un yn rhoi o'i orau. Roedd hi'n fraint wirioneddol cael bod yn yr Eisteddfod ym mro Mwynder Maldwyn! Diolch arbennig i Mrs Delyth Humphreys am hyfforddi'r côr i safon mor uchel! Diolch hefyd i'n rhieni am eu cymorth ym Meifod.

**Dosbarth Mrs Tegid yn Beicio**
Bu'r disgyblion wrth eu boddau yn cymryd rhan mewn datblygu sgiliau beicio ar y iard. Pawb wrthi'n ddygn a sgiliau pob un wedi gwella'n arw! Sgiliau pwysig! Amdani rwan ar hyd Lon Las!

**Bethan Gwanas**
Cafwyd cyfle i groesawu Bethan Gwanas at ein disgyblion hynaf i drafod ei llyfrau, ac roedd Llinyn Trons yn un o'r ffefrynnau! Cafodd y disgyblion gyfle i greu stori wreiddiol hefo'i gilydd, ac roedd Bethan yn rhyfeddu at ddychymyg byw ein disgyblion!

**Ysgol Dyffryn Ogwen**
Braint oedd derbyn gwahoddiad gan Ysgol Dyffryn Ogwen i fynychu eu seremonu gwobrwyo Blwyddyn 11, a hyfryd gweld ein cyn-ddisgyblion yn llwyddo. Llongyfarchiadau i Mia New ar ganu'r unawd a wnaeth gyffwrdd ein calonnau i gyd!

Diolch i Mrs Bethan Durrell am drafod hefo'r disgyblion hynaf sy'n trosgwlyddo i Ysgol Dyffryn Ogwen ym mis Medi. Cafwyd orig ddifyr yn ei chwmni.

**Glanllyn**
Cafwyd penwythnos bendigedig yng Nglanllyn. Cafwyd modd i fyw yn ymwneud â'r gwahanol weithgareddau ar lannau Llyn Tegid. Edrychwn ymlaen at fynd yn ôl yno eto'n fuan.

**Diwrnod y Carnifal**
Mae diwrnod y carnifal yn un o'n uchafbwyntiau ar galendr yr ysgol. Cafwyd diwrnod i'w gofio, a'r holl blantos a'r staff i gyd yn ymuno yn yr hwyl! Roedd y neuadd yn fôr o liw, a phawb yn cael cyfle i orymdeithio wrth gynrychioli eu gwledydd! Diolch i'r rhieni am fod mor barod i'n cynorthwyo. Diolch i Stephen Jones am ddewis miwsig mor rhythmig i ni!

**Arolygiad Ysgol Llanllechid**
Cafodd yr ysgol ei harolygu a cafwyd canlyniad llwyddiannus. Llawer o ddiolch i holl gymuned yr ysgol am eich ymroddiad i'r ysgol ac am eich gwaith caled. Llongyfarchiadau i bawb!

**Dathliadau Ysgol Llanllechid yn Saith Deg**
Bydd yr ysgol yn cynnal nifer o weithgareddau i ddathlu'r penblwydd pwysig ar ôl yr haf. Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn creu arddangosfeydd o hen luniau ac ati. Anfonwch unrhyw luniau atom i leanne.parry@llanllechid.ysgoliongwynedd.cymru


**Diwrnod Olaf y Tymor**
Diwrnod olaf y tymor eleni yw Gorffennaf 18. Dymuniadau gorau i bawb, gan obeithio y cawn weld gwenau'r haul!

**Addysg Awyr Agored**
Rydym yn parhau i fanteisio ar sicrhau ymweliadau cyson â'r ardal leol, ac yn ddiweddar, cafodd y disgyblion gyfle i gerdded i Barc y Moch a Thalcen y Deyrnas i ymwneud â gwaith maes. Diolch i'n cyn-ddisgybl Harri Pickering am ein cynorthwyo; braf iawn yw cael cyd-weithio hefo ti Harri!





# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Yr hyn a geir yn lân gan Ynni Ogwen (4)
4 Gall ei henw fod yn ddeunod fel ei chân (4)
8 Dacw fudiad i roi trefn ar ein henebion (4)
9 Y Gwaredwr (8)
10 Edrych ym mhobman yn idiomatig i gael hyd iddo (5,1,6)
11 Arwydd o gytundeb efo'r pen (5)
13 Niwl a thywyllwch yn hytrach na haul a goleuni (5)
15 W.W. yw'r cyfeiriad mynych ato yn y llyfr emynau (1,3,8)
18 "Caiff rodio'r ffyrdd - - - - - - - -", y cynganeddwr ar lwybrau cyfarwydd (8)
19 Rhoi tusw i lodes wylaidd (4)
20 Osgoi heb ddim i wibio'n gywir ar yr eira (4)
21 Mae hi'n groyw, loyw yn yr ucheldir medd y bardd (4)

## I LAWR

2 Swnio fel y bychain gwlanog eiddil y tymor yma (7)
3 Cwm poblogaidd gogleddol (5)
4 "- - - - - Lliw Hunllef" gafodd wobr Tir na n-Og ers talwm (3,2)
5 Achos i'r wyneb gochi efallai (7)
6 Mewn gwendid ar ôl bod yn ddifater (6)
7 Yr arian i brynu tocyn i'r gêm beldroed y mis hwn (4)
12 Pwnc o dan fy nhraed (7)
13 Aelodau'r côr ; - - - - - - yn gytûn (6)
14 Mae hylif bywyd ynddi, a bywoliaeth y chwarelwr oedd y llechfaen ynddi (7)
15 Ar y cyrion (4)
16 Stôl fechan a bwced i gyflawni'r weithred, a llymaid wedyn (5)
17 Cefais damaid melys pan eis i nôl y gacen wen (5)

**ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2024**

**AR DRAWS** 1 Cofeb, 4 Hagr, 7 Smwc, 8 Cwmpeini, 9 Athro, 10 Penwisg, 12 Ymffrost, 16 Colledig, 18 Unig, 20 Llafariad, 21 Abra, 22 Ysol, 23 Hadyd

**I LAWR** 1 Cwmpas, 2 Ficerdy, 3 Bwci, 4 Hamddenol. 5 Gwelw, 6 Ynysu, 11 Effeithiol, 13 Tanbaid, 14 Sothach, 15 Agored, 17 Emaus, 19 Y Doh


Yr ychydig wallau a ymddangosodd y tro yma oedd 'offeiriol' yn lle 'effeithiol' (11 I Lawr), 'fflwc' yn lle 'smwc' (7 Ar Draws), 'wern' yn lle 'athro' (9 Ar Draws) a 'culhwch' yn hytrach na 'cwmpas' (1 I Lawr).

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am atebion cywir : Gaynor Elis-Williams, Doris Shaw, Rita Bullock, Jac Peall, Bethesda; Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Talybont; Huw a Gwenno, Meilyr Wyn, Gerlan; Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Medi Michael, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Judith Hughes, Llangoed

Atebion erbyn 16eg Awst 2024 ***fan bellaf*** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Yr un sy'n derbyn y clod a'r wobr y mis yma yw Iona Williams, Tegfan, Ffordd Newydd, Llanddulas, Abergele, LL22 8EL


**JOHN ROBERTS**
**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**



**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995






**BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS**
**01248 361044**
**07771 634195**

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio – tripiau, priodasau, partion ac ati.

*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL
A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

## Gan Andre Lomozik

### RHAN 19

**15 OGWEN TERRACE, BETHESDA**
Gŵr o'r enw **Ellias Jones** a'i wraig Ellen oedd yn byw yn rhif 15 Ogwen Terrace, Bethesda yn y flwyddyn 1871. Roedd Ellias yn enedigol o Gapel Curig, ac fe'i ganwyd yn 1814. Ym Mangor y ganwyd Ellen ei wraig yn y flwyddyn 1819. Groser oedd bywoliaeth Ellias, ac roedd ganddynt forwyn o'r enw Catherine Roberts a anwyd ym Methesda.

Mae Ellias ac Ellen yn dal i fyw yn rhif 15 Ogwen Terrace yn 1881, ond erbyn hyn mae brawd yng nghyfraith Ellias yn byw gyda hwy. Saer maen oedd Thomas Williams ac roedd yn 71 oed. Roedd morwyn arall yn gweini i'r teulu erbyn hyn, merch o'r enw Ann Parry o Langaffo, Sir Fôn, ac roedd hi yn 20 oed.

Bu farw Ellen yn 1883 yn 65 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen ar y 19eg o Dachwedd y flwyddyn honno.

Prin iawn yw adroddiadau am Ellias Jones yn y newyddiaduron, ac yn wir dim ond dau rwyf wedi dod ar eu traws, un yn cofnodi marwolaeth ei wraig, ac un arall, sef hysbysiad am ei farwolaeth o, yn y *NWC* Mawrth 27 1886:

*All Persons having any CLAIMS against the Estate of ELIAS JONES (Deceased), late of 15, Ogwen-Terrace, Bethesda, Grocer, must forward their Statements and Proofs of Debt to me on or before the 25th day of April, 1886; and all Debts owing to the above Estate must be Paid to me at once. W. W. Robinson, Auctioneer and Valuer, Bangor and Bethesda (Executors' Agent). March 25th 1886.*

Claddwyd Ellias gyda'i wraig ym mynwent Glanogwen ar y 15fed o Fawrth 1866. Roedd yn 72 mlwydd oed.

Gŵr o'r enw **John N. Crowther** a'i deulu lluosog oedd yn byw yn 15 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1891. Roedd John Newton Crowther wedi ei eni yn Todmorden yn Swydd Efrog yn y flwyddyn 1848, ac roedd yn brifathro yn Ysgol Rhydlewis yn Sir Aberteifi. Yn ôl cyfrifiad 1881, yno y ganwyd holl blant y teulu. Pan cyrhaeddodd Fethesda, roedd Sarah Crowther ei wraig yn 40 oed ac mae'r cyfrifiad yn nodi mai yn Rhydlewis y ganwyd hi hefyd.

Mae 12 o blant i Mr a Mrs Crowther yn cael eu henwi yng nghyfrifiad 1891, sef Anna Alice (1870); Mary (1873) yn athrawes gynorthwyol; Sarah Lena (1875); Myfanwy (1876) mae hi yn cael ei chofnodi yn disgibl athrawes; Edith (1878); Mariah Gertrude (1880); Winifred Blodwen (1882); Martha Evangeline (1884); Lilian Gwladus (1886); Emrys Lloyd (1888); Albert Lloyd (1889); a Verna Ceridwen (1890). Roedd y plant i gyd yn ddwyieithog heblaw am y tri ieuengaf.

Cafodd John Newton Crowther swydd fel prifathro ar yr ysgol a gynhaliwyd yn yr ystafelloedd o dan gapel Bethesda yn y blynyddoedd cynnar, ac wedyn ar ysgol newydd y Cefnfaes ar ôl ei hagor yn 1907. Mae'n ymddangos fod John N. Crowther a'i deulu wedi symud o rif 15 Ogwen Terrace rywbryd cyn cyfrifiad 1901, ac maent yn byw yn rhif 21 Ogwen Terrace erbyn y flwyddyn yma.

Yn y *Caernarvon & Denbigh Herald* Rhagfyr 9, 1892 cawn adroddiad o dan y teitl '*Teachers Appointment*' lle mae Annie Crowther yn cael ei henwi. '*Slate Quarries, (Girls) Miss Annie Crowther, Bethesda.*'

Yna yn y papur *The London Kelt* mae hanes priodas. '*Marriage of J. Winton Evans, & M. Crowther. At the South Palce Chapel on the 5th inst. Was celebrated the wedding of Mr J. Winton Evans, of Green Street, Victoria Park, and Miss Marie Crowther, of the Banking Department, G.P.O., before a select number of friends, according to the rites of the Ethical Society. Mr Moncure D. Conway officiated, and had prepared a special wedding Service for the event, which was both impresive and picturesque. Among the company present were Mr J. (W) Crowther Bethesda (father of the bride); Miss Lena Crowther (sister).*

Nid oes sôn am weddill y teulu yn yr adroddiad.

Ac ar y 10fed o Awst 1897 cawn adroddiad am briodas arall – un o ferched J. N. Crowther, sef 'TURNER – CROWTHER – Awst 6, yn Nghapel Annibynwyr Bethesda, gan y Parch. R. Rowlands, Treflys, Bethesda, E. R. Horsfall Turner, B. A., prifathro yr Ysgol Sirol, Llanidloes, ag Annie, ail ferch J. N. Crowther, Bethesda.'

Cyfreithiwr o'r enw **William Twigge Ellis**, a anwyd yn Bethesda yn 1867, a'i deulu oedd yn byw yn rhif 15 erbyn 1901. Yng nghyfrifiad 1871, mae William yn byw yn rhif 81 Stryd Fawr (Blue Bell), Bethesda gyda'i dad a'i fam a dwy chwaer ac un brawd. Roedd ei dad wedi ei eni ym Methesda yn ogystal â'i frawd a'i chwiorydd. Ganwyd ei fam yn Staffordshire. Erbyn cyfrifiad 1881 mae tad William wedi marw ac mae'r teulu wedi symud i gadw'r Douglas Arms Hotel, lle mae ei fam yn nodi mai '*hotel propriotor*' ydoedd. Dim ond Mary Jane a William oedd yn byw yno gyda'u mam. Erbyn y flwyddyn yma, roedd John ei frawd yn gweithio fel clerc mewn banc yn Llangefni. Mae'n bosib fod y chwaer hynaf, sef Sarah Anne, wedi priodi, i ffwrdd o gartref yn gweini, neu wedi marw erbyn y dyddiad yma. Roedd y teulu yn dal i fyw yn y Douglas Arms Hotel erbyn cyfrifiad 1891, gyda Hannah yn '*hotel propriotor*', William yn cofnodi mai cyfreithiwr ydoedd, a Mary Jane wedi briodi gyda gŵr o'r enw Henry Roberts, yn enedigol o Gapel Curig, ac yn nodi mai cyfrifydd mewn banc ydoedd. Roedd ganddynt bedwar o blant, Ada, David Henry, Robert E. a Catherine D.

Fel y soniwyd roedd William a'i deulu yn byw yn 15 Ogwen Terrace erbyn cyfrifiad 1901. Jane oedd enw ei wraig a fe'i ganwyd hi yn Nhalsarn yn 1871. Roedd tri mab wedi eu geni iddynt erbyn y flwyddyn yma, David Ithel (1894), William Tudor (1896), Trevor Edgar (1898). Roedd merch o'r enw Ellen Lewis, merch 32 oed o Langefni yn gweini iddynt.

Mae adroddiad yn ymddangos yn y *North Wales Observer & Express*, dyddiedig Ebrill 14, 1893, yn enwi William Twigge Ellis fel ymgeisydd mewn etholiad lleol.

'*Local Board Elections. Bethesda. The annual election of Improvement Commisioners for the Bethesda district took place on Wednesday, the result being declared the next day as follows:- W. J. Parry (L), 563; *Hugh Thomas (L), 554;* ***William Twigge Ellis*** *(C), 521; *William Williams (L), 451; *John Edwards (L) 356; Jeremiah Thomas (L), quarryman 303; Evan D. Jones (L) 257; Col. The Hon. W. E. Sackville West (C), 189. Mr Parry and the next two are elected. The astrisk denotes a retiring member.*'

Cawn adroddiad yn y *NWC* Medi 1893 am sioe amaethyddol Bethesda, lle mae W. Twigge Ellis yn ennill y wobr cyntaf am dyfu '*Runner Beans*'. Cynhaliwyd y sioe ar gaeau agored tu cefn i Eglwys Crist, Glanogwen.

Yn y *Caernarvon & Denbigh Herald*, dyddiedig Ionawr 19, 1906 mae hysbysiad yn ymddangos yn enwi William Twigge Ellis fel asiant i'r ymgeisydd Arthur Edward Hughes yn yr etholiad gwladol a oedd i'w gynnal y flwyddyn honno.

Rhwng genedigaeth Trevor Edgar yn 1898 a chyfrifiad 1911, ganwyd mwy o blant i William a Jane, sef Mary Gwynedd (1900), Harry Glyn (1901), Keith Vaughan (1903), Ilid Mary (1906), ac Arthur Cecil (1909). Mae'r cyfrifiad am y flwyddyn yma yn nodi fod William a Jane wedi cael naw i blant i gyd ond fod dau wedi marw erbyn adeg y cyfrifiad.

Roedd y teulu wedi symud erbyn 1911, ac yn byw mewn tŷ o'r enw Bryn Crafnant, Trefriw.

Cyfreithiwr arall o'r enw **Roger Evans** a'i deulu bach oedd yn byw yn rhif 15 Ogwen Terrace yn 1911. Ganwyd Roger ym mhlwyf Llanllechid yn y flwyddyn 1878, yn fab i Robert B. a Margaret Evans. Casglwr trethi oedd bywoliaeth ei dad ac roedd ganddynt dri o fechgyn i gyd, sef Robert, Roger, a Benjamin. Roedd Mary Myfanwy, ei wraig, yn dod o Landdeiniolen, ac fe anwyd eu merch fach mis oed ym Methesda. Roedd ganddynt forwyn o'r enw Grace Owens o Landygái yn gweini iddynt, ac roedd hi yn 16 oed.

Mae amryw o gofnodion yn y newyddiaduron yn enwi Roger Evans. Mae un yn werth ei ailadrodd er mwyn dangos sut mae pethau wedi newid erbyn heddiw.

*Yr Herald Cymraeg*, dydd Mawrth, Gorffennaf 30, 1907.

'Y Ddynes a'r Rhaff.- Cyhuddwyd Jane Ellen Pierce, Rachub, ger Bethesda, dros yr hon yr ymddangosai Mr Roger Evans, o ladrata rhaff drol, gwerth 3s 8c, eiddo Richard Owen, Dinas Farm, Tregarth, Llandegai.- Tystiodd Owen na ddarfu iddo roddi y rhaff i'r ddynes, – Tystiodd Thomas Hughes, Tal-y-Sarn, Llanllechid, ddarfod iddo ef brynu y rhaff am 4½c gan y diffynyddes. – Dywedodd y ddynes mai gofyn am raff i gario coed a wnaeth. Dywedodd Owen wrthi am gymryd un, a chymerodd hithau yr un dan sylw. – Dirwywyd y ddiffynnydd i ddeg swllt a'r costau neu bythefnos o garchar.'

(i'w barhau) tro nesaf rhif 16 Rhes Ogwen

# Partneriaeth Ogwen



**Gŵyl Gwenllïan 2024**
Bu Partneriaeth Ogwen unwaith eto yn cynnal Gŵyl Gwenllïan fel dathliad o ferched y Carneddau rhwng 7fed a 9fed Mehefin 2024. Cafwyd amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau drwy gydol y penwythnos, a hoffem ddiolch i'n partneriaid a'n noddwyr niferus am wneud y penwythnos yn llwyddiant mawr!

**Ysgrifennu Creadigol efo Buddug Roberts**
I gychwyn dathliadau penwythnos Gŵyl Gwenllïan, mi wnaethom wahodd llenor lleol Buddug Roberts i arwain gweithdy ysgrifennu creadigol gyda disgyblion blwyddyn 8 Ysgol Dyffryn Ogwen.

Ysgrifennodd y disgyblion gerddi a haikus am ardal Dyffryn Ogwen; mae'n bendant fod gennym lenorion ifanc yn ein mysg!

Diolch i Lenyddiaeth Cymru am y gefnogaeth a diolch arbennig i Buddug a'r disgyblion – gwaith gwych gan bawb!



**Gweithgareddau Angie Roberts / cinio Hwb Ogwen**
Ymunodd yr awdur plant adnabyddus Angie Roberts â ni yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn ar gyfer gweithgaredd teuluol llawn hwyl yn seiliedig ar ei llyfrau. Cafodd y plant gyfle i greu chwibanau allan o afalau a chwarae ynghyd â recordiad o Sosban Fach wedi ei berfformio yn gyfan gwbl gyda ffrwythau a llysiau. Cafodd y plant gyfle hefyd i fwynhau darlleniad o lyfr diweddaraf Angie "Arwana Swtan a'r Sgodyn Od" gan Linda Brown.



**Sesiwn Celf efo Elen Williams**
Er gwaethaf y tywydd a gorfod symud y digwyddiad i mewn oherwydd y glaw, mwynhaodd pawb y sesiwn gelf a gynhaliwyd gan Elen Williams fore Sul. Arweiniodd Elen y grŵp i wneud arddangosfeydd blodau papur a llyfrau nodiadau, yn ogystal â chynnig heriau lluniadu creadigol. Diolch yn fawr i Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau am ariannu'r digwyddiad.





**Taith Cedded Carneddau**
Brynhawn Sadwrn, aeth Sophie Davies o Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau gyda thaith dywys i fyny Moel Faban i siarad am y gwaith y mae'r Bartneriaeth wedi bod yn ei wneud, megis sut mae'r gwaith clirio llystyfiant diweddar ac ymchwil archeolegol wedi helpu i arwain at well dealltwriaeth o sut mae defnyddiwyd y Carneddau. Siaradodd hefyd am fioamrywiaeth yr ardal unigryw hon. Diolch yn fawr i Rob Havelock am wirfoddoli i dywys y daith gerdded. Enillodd Rob ei gymhwyster Arweinydd Tir Isel trwy gyllid Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, ac roedd yn falch o'r cyfle i wirfoddoli ei amser.



**CARN**
Cyflwynwyd arddangosfa o weithiau celf gan artistiaid benywaidd lleol gan CARN yng Nghanolfan Cefnfaes, gyda gweithiau amrywiol gan 15 o artistiaid. Lansiwyd yr arddangosfa gyda digwyddiad a oedd yn cynnwys trafodaeth banel gan Nicci Beech o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Castell Penrhyn sydd wedi bod yn arwain ar brosiect Ailfframio. Cafodd y mynychwyr glywed am y prosiect gan y tri artist lleol, Anna Pritchard, Jŵls Williams a Rhiannon Gwyn – sydd wedi bod yn gweithio efo cymunedau Pesda i greu'r gweithiau celf fydd yn ffurfio arddangosfa Ailfframio yn Castell Penrhyn fydd ar agor dechrau mis Gorffennaf.

**Iaith Pesda**
I ddathlu rhai o'r geiriau a'r ymadroddion hyn, mae Partneriaeth Ogwen wedi cydweithio â Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau i ddod â nhw i'n Stryd Fawr. Ar ôl paratoi rhestr o eiriau ac idiomau Bethesda gyda'r arbenigwraig leol Mary Jones, aeth criw o ddisgyblion Ysgol Penybryn ati i ddylunio llechi yn cynnwys y geiriau ynghyd â dyluniadau a ysbrydolwyd gan draddodiad cerfio llechi Dyffryn Ogwen. Helpodd y crefftwr lleol Alun Davies (Amser Al) y grŵp i ddefnyddio torrwr laser y Gofod Gwneud Canolfan Cefnfaes i ddod â'u gweledigaeth yn fyw.

Mae sawl busnes lleol wedi cytuno'n garedig i arddangos y llechi yn eu ffenestri drwy'r haf. Mae'r llechi bellach i'w gweld mewn ffenestri i fyny ac i lawr y Stryd Fawr. Dilynwch y map isod i ddod o hyd iddyn nhw i gyd. Bu myfyrwyr Ysgol Penybryn hefyd yn helpu i greu rhai darluniau i ddangos ystyr y geiriau. Faint o'r geiriau hyn ydych chi'n eu hadnabod? A oes unrhyw rai rydych chi'n dal i'w defnyddio'n rheolaidd? Ewch i'r wefan Ogwen.cymru neu galwch i mewn i swyddfa Partneriaeth Ogwen am fap i ddarganfod y llechi a'r diffiniadau o'r geiriau Pesda.






**Llymaid a Llên**
Cafwyd noson braf yn Y Fic ar gyfer ein digwyddiad Llymaid a Llên. Cafwyd mewnwelediad da i broses ysgrifennu Sioned Erin Hughes wrth i Meleri Davies ei holi am ei chyfrol O'r Rhuddin. Trafodwyd ysbrydoliaeth, salwch, a'r argyfwng hinsawdd. Roedd gonestrwydd Erin yn chwa o awyr iach a buvei chyngor hi'n hwb i sawl un o'r ysgrifenwyr oedd yn gwrando.

I ddilyn roedd yn bleser clywed darlleniadau gan lenorion lleol, a rhai oedd wedi teithio draw, fel rhan o'r Meic Agored wedi ei lywio gan Casia Wiliam. Yn addas iawn fe glywsom gerddi wedi eu hysbrydoli gan y Dywysoges Gwenllïan, a rhai am y dirwedd leol. Cawsom hyd yn oed gipolwg ar benodau cyntaf nofel gan un cyfrannydd. Diolch i bawb ddaeth i wrando a chymryd rhan.
**https://www.partneriaeth ogwen.cymru**

**Cynhadledd Trafnidiaeth Cymunedol Gwynedd 05/06/24**
Ddechrau'r mis daeth criw dethol o unigolion draw i Ganolfan Cefnfaes i glywed am waith grwp Trafnidiaeth Cymunedol Gwynedd. Mae'r grwp sy'n cynnys Partneriaeth Ogwen, Y Dref Werdd (Bro Ffestiniog), Yr Orsaf (Dyffryn Nantlle) a Drws i Ddrws (Pen Llyn) yn gweithio ar gefnogi cymunedau sy'n wynebu heriau trafnidiaeth

Cafwyd diwrnod da yn trafod y materion a'r heriau sy'n wynebu'r sector heddiw. Croesawyd sefydliadau o bob cwr o Gymru megis Community Transport Association Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd o Brifysgol Aberystwyth, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cyngor Gwynedd a llawer mwy. Yn ystod y digwyddiad bu Huw Davies, rheolwr prosiect Dyffryn Caredig yn trafod gwaith cludiant Partneriaeth Ogwen, beth sydd yn gweithio'n dda yn ogystal â'r heriau. Roedd yn braf clywed hefyd gan bartneriaid y cynllun; O Ddrws i Ddrws, Y Dref Werdd a'r Orsaf.

Roedd y digwyddiad yma yn fan cychwyn da ar gyfer y sgwrs yma gyda rhai o sefydliadau pwysicaf y maes yn trafod gyda unigolion a sefydliadau fyddai'n defnyddio'r gwasanaethau.

Am fwy o wybodaeth am ein gwasanaethau trafnidiaeth cysylltwch gyda cludiant@ ogwen.org, neu defynddiwch y ddolen isod i ymweld â'n cyfryngau cymdeithasol.



**Lleisiau Lleol Dyffryn Ogwen**
Sefydlwyd Lleisiau Lleol Dyffryn Ogwen yn 2023, fel rhan o gydweithrediad rhwng Partneriaeth Ogwen a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau. Wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â 'Lleisiau Carneddau', mae Lleisiau Lleol Dyffryn Ogwen yn gasgliad cynyddol o hanes llafar a gasglwyd gan wirfoddolwyr trwy gyfres o gyfweliadau sain a fideo. Mae ein casgliad hefyd yn cynnwys darlithoedd, sgyrsiau a thrafodaethau amrywiol sy'n berthnasol i Ddyffryn Ogwen.

I weld y gasgliad, ewch i Gasgliadywerin. cymru a chwiliwch am "Lleisiau Lleol Dyffryn Ogwen".

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Lleisiau Lleol Dyffryn Ogwen, cysylltwch â gofod@ogwen.org

LLEISIAU LLEOL

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Ymweliad Blwyddyn 6**

'Bu cyfnod brysur iawn yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf yn croesawu blwyddyn 5 a 6 am ddiwrnodau blasu. Roedd pawb wedi cael profiadau gwych yn y gwersi ac yn dod i adnabod yr ysgol. Edrychwn ymlaen i groesawu blwyddyn 6 ym mis Medi. Diolch yn fawr i Menter Iaith Gwynedd am roi cyflwyniad i flwyddyn 6

**'Lleisiau Newydd'**

Unwaith eto eleni mae disgyblion YDO wedi bod yn rhan o brosiect 'Lleisiau Newydd' Y Cymro. Prosiect sy'n rhan o grant annog cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol gan y Cyngor Llyfrau yw hwn. Fel rhan o'r prosiect roedd yn rhaid i'r disgyblion ysgrifennu darnau gwreiddiol a diddorol am bynciau o ddiddordeb iddynt i'w cyhoeddi ar wefan Y Cymro ar lein. Yn ôl y golygydd roedd gwaith Osian Rowlands (Bl13), Betsan Griffiths (Bl13), Hannah Ellis (Bl12) a Mari Roberts (Bl11) wedi cael ymateb da iawn gan ddarllenwyr Y Cymro ac fe ategodd ei bod hi'n fraint cael rhoi platfform i ysgrifennwr ifanc Cymraeg. Fe dderbyniodd y pedwar disgybl lwcus rodd o £100 yr un am eu gwaith. Llongyfarchiadau gwresog i bob un ohonynt.

**Cyflwyno Proffil Personol**

Ddydd Mercher, 19eg o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 ar ddiwedd eu cyfnodau arholiadau. Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd pawb yn hynod o smart! Cafwyd eitem gerddorol gan Mia Williams, *Slipping through my fingers* ABBA. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



Nel, Osian a Leni



Georgia, Amy ac Elin



Sion a Gwion

**Fa'Ma**

I ble'r aeth y tymor diwethaf 'ma 'dwch? Mae disgyblion Cymraeg Dyffryn Ogwen wedi bod wrthi fel lladd nadroedd, gyda gweithgareddau difyr iawn ar hyd a lled Bethesda yn ddiweddar. Pwy ddaeth ar draws arogl pitsa ar noson braf ym mis Mehefin? Wel, rhowch fai ar ein criw ni, a fu mor ffodus â chymryd rhan mewn digwyddiad gan y cwmni theatr/cymdeithasol Fran Wen. Mae'r prosiect 'Fa'ma' yn anelu i roi llais i ieuenctid Bethesda, yn eu hysgogi i ddweud eu dweud a cyflwyno'u hardal drwy eu llygaid eu hunain. Bu'r sesiwn gyntaf yn llwyddiannus dros ben, gyda'r criw yn nodi ei bod yn andros o braf cael cydweithio a chymdeithasu mewn ffordd greadigol tu hwnt i reolau dosbarth! Braf hefyd oedd cael rhywun yn cynnig clust i wrando ar eu teimladau am eu 'Pesda nhw. A dwi'n siŵr nad oedd cwyno fod y pitsa am ddim chwaith! Hei lwc iddyn nhw oll yn ystod y sesiynau eraill (bob nos Iau am y mis nesa' – gwyliwch y gofod yma)!




Twm a Bleddyn



Elis, Caitlin, Begw a Talia

**Gŵyl Gwenllian**

Mae cydweithio creadigol yn thema yn amlwg, gan i griw eiddgar o flwyddyn 8 gymryd rhan mewn gweithdy ysgrifennu creadigol gydag adran y Gymraeg i nodi dathliadau Gŵyl Gwenllian. O dan arweiniad yr amryddawn Buddug Roberts, eu tasg oedd i gyd-lunio Haiku (ffurf Siapaneaidd o gerdd), yn disgrifio eu 'Pesda nhw eto. Bu'n agoriad llygaid i'r dysgwyr a'u hathrawon, a dwi'n siŵr ein bod wedi gweld ambell i brifardd y dyfodol yn blaguro! Hoffai'r criw ddiolch o galon eto i Buddug ac i Bartneriaeth Ogwen am gynnal sesiwn mor ddiddorol a hwyliog i ni i gyd!



Wil, Gruff, Tomi, Eban a Harri yn mwynhau

Dyma nhw buddugwyr Cystadleuaeth Clwb Darllen hanner tymor y Gwanwyn. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch!
Elsa Roberts 7 Ogwen – Cyntaf
Iwan Bolton 7 Ogwen – Ail
Emmanuel Adeyemi ac Alexis Jones 7 Ffrancon – Trydydd




Emmanuel, Elsa, Iwan ac Alexis

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Fel rhan o'r arddangosfa newydd 'Ailfframio' fydd yn cyrraedd Castell Penrhyn yn mis Gorffennaf, bu nifer o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn gweithio gydag Anna Pritchard, yn creu gwisgoedd lliwgar gan ddefnyddio gwahanol dechnegau tecstilau yn adlewyrchu ar rai o'r gwahaniaethau yn y gymuned chwarelyddol ddoe a heddiw.

**Adran Addysg Gorfforol**
Mae genethod blwyddyn 7 wedi dod yn 3ydd drwy Gymru yn y twrnament iau ar gyfer pêl-fasged cadai olwyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd y gêm am y fedal efydd yn hynod o gyffrous a Dyffryn Ogwen yn cipio'r pwyntiau yn y munudau olaf. Da iawn chi genod a diolch i Mrs Durrell am drefnu. Diolch hefyd i glwb pêl-fasged Caernarfon Celts am roi sesiynau blasu a hyfforddiant i chi. Ar ôl gwylio eich gemau yn yr ysgol mae mwy o ddisgyblion Dyffryn Ogwen eisiau tro ar y gamp.



Genethod blwyddyn 7



# Artist Lleol

Mae gwaith rhyfeddol yr artist lleol Rhiannon Gwyn yn ganolbwynt i arddangosfa ddiweddaraf yn Amgueddfa Llechi Cymru yn Llanberis.

Mae Rhiannon, o Sling, wedi datblygu techneg arloesol o doddi a siapio llechi Cymreig.





Mae'r llechen wedi'i doddi yn cael ei harddangos gyda bowlenni ceramig wedi'u gwneud â llaw, pob un wedi'i baentio â gwydredd wedi'i wneud o ddeunyddiau naturiol fel y mae hi'n esbonio:

"Drwy weithio a deunyddiau lleol – y rhan fwyaf ohonynt yn sgil-gynhyrchion o brosesau gan ddiwydiannau a sefydliadau lleol, megis llechi Cymreig sy'n wastraff o'r chwarel leol, lludw eithin o waith clirio Parc Cenedlaethol Eryri ar Foel Faban a chlai o lannau afonydd cyfagos – mae'n archwilio sut y gall deunyddiau gyfleu hunaniaeth drwy ddylanwadu ar y ffordd rydym yn gweld ein hunain a'r byd o'n cwmpas drwy drosglwyddo emosiwn ar ein hamgylchedd."

Mae ei gwaith celf a'i chrefft gyda'r deunyddiau wedi cael eu cydnabod gan Amgueddfa Cymru sydd wedi ei gaffael un o'i gweithiau sef 'Y Nefoedd yn Toddi i'r Tir' – ar ôl iddo gael ei arddangos y llynedd yn eu harddangosfa 'Rheolau Gelf' ac yn arddangosfa 'Y Lle Celf' Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Mae Rhiannon hefyd wedi ennill gwobr Gwneuthurwr Newydd yn yr Ŵyl Serameg Ryngwladol yn Aberystwyth, wedi cael eu dewis ar gyfer 'Rhaglen Datblygu Talent Biennial' Cerameg Prydain ac wedi derbyn cyllid gan 'Celfyddydau Rhyngwladol Cymru' i fynd ar daith ymchwil i'r Unol Daleithiau.

Mae 'Haenau' yn arddangos y gwaith a gynhyrchwyd fel rhan o brosiect ymchwil a datblygu Rhiannon a ariennir gan gronfa 'Creu' Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cafwyd cefnogaeth hefyd gan Ganolfan Grefft Rhuthun, Parc Cenedlaethol Eryri, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ariannwyd y ffilm yn yr arddangosfa gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r arddangosfa i'w weld yn yr amgueddfa tan 1 Tachwedd. Mynediad am ddim. Diolch i Ogwen 360

# Cymorth i rai sy'n serenu ym myd chwaraeon

Mae dilyn eich breuddwyd ym myd chwaraeon yn gallu bod yn gostus tu hwnt, gyda'r holl ymarferion, teithio, cystadlu agati, ond os ydych o dan 25 oed ac yn dod o Wynedd neu Gonwy efallai y gall Cronfa Cofio Robin fod o gymorth.

Mae'r elusen yn gallu gwneud cyfraniadau o rhwng £100 a £2,000 i ymgeiswyr llwyddiannus. Y llynedd gwnaed cyfraniadau o dros £16,000 i 24 o ymgeiswyr. Mae yna ystod eang o chwaraeon sydd wedi cael eu hystyried dros y blynyddoedd megis rygbi, pêl-droed, hoci, dringo, nofio, cayacio, beicio, saethu colomenod clai ag ati.

Ewch i www.cofiorobin.co.uk i weld mwy am yr elusen. Yno hefyd cewch gopi o'r ffurflen gais sydd angen ei llenwi a'i dychwelyd i'r Ymddiriedolaeth erbyn Medi 30.

**YMDDIRIEDOLAETH COFIO ROBIN LLYR EVANS**

Cronfa a sefydlwyd gan teulu Robin Llyr Evans yn 2018 i estyn cymorth ariannol i unigolion o dan 25 oed o Ogledd Orllewin Cymru sydd yn anelu yn uchel mewn chwaraeon. Elusen er mwyn cofio bywyd Robin. Cyfleuoedd i unigolion gyrraedd rhagoriaeth mewn Chwaraeon – Gwynedd a Conwy gyda grantiau. Hefyd cyfle i gyfrannu at yr elusen.

**www.cofiorobin.co.uk**





**Contractwyr Trydanol**

**Jones & Whitehead cyf**

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

**Ffôn:** 01248 601257
**Ffacs:** 01248 601982
**E-bost:** info@jonesandwhitehead.co.uk

**STEPHEN JONES**
**TREFNWR ANGLADDAU CYF**

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com